# Agweddau'r cyhoedd at ddyfodol cyfansoddiadol y DU: Dadansoddiad o Arolwg Cyflwr yr Undeb 2023

Ailsa Henderson a
Richard Wyn Jones

Adroddiad i:

*Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru*

Medi 2023

Mae **Ailsa Henderson** yn Athro Gwyddor Gwleidyddiaeth ym Mhrifysgol Caeredin.

Mae **Richard Wyn Jones** yn Athro Gwleidyddiaeth Cymru ac yn Gyfarwyddwr Canolfan Llywodraethiant Cymru Prifysgol Caerdydd.

Cynnwys

1. Cyflwyniad: Arolwg Cyflwr yr Undeb 2023 . . . 4

2. Agweddau at ddyfodol cyfansoddiadol posibl . . . 7
2.1 Datganoli wedi'i wreiddio . . . . . . 7
2.1.1 Blaenoriaethau Diwygio
2.1.2 Confensiwn Sewel
2.1.3 Gwarant refferendwm?
2.1.4 A ddylai llywodraeth y DU allu rhwystro deddfwriaeth ddatganoledig?
2.1.5 Datrys Anghydfod
2.1.6 Diwygio Tŷ'r Arglwyddi
2.1.7 Cyfansoddiad ysgrifenedig
2.2 DU ffederal . . . . . . . 19
2.2.1 Llywodraethu Lloegr
2.2.2 Sofraniaeth a Rennir
2.2.3 Cydweithredu rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth
2.3 Annibyniaeth/Ailuno . . . . . 23
2.3.1 Patrymau cefnogaeth ar gyfer annibyniaeth/ailuno
2.3.2 Agweddau at uniondeb tiriogaethol y wladwriaeth

3. Heriau . . . . . . . . . 27
3.1 Anniddigrwydd tiriogaethol
3.2 Peryglon Unoliaetholdeb Gyhyrol
3.3 Ailgyflwyno Cwestiwn Lloegr?

4. Casgliadau . . . . . . . . . 35

Llyfryddiaeth . . . . . . . . . . 38

Atodiad: Modelu Ystadegol . . . . . . . 40

Atodiad: Methodoleg . . . . . . . . 49

# 1. Cyflwyniad: Arolwg Cyflwr yr Undeb 2023

Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio data o Arolwg Cyflwr yr Undeb Caerdydd-Caeredin, sef arolwg o agweddau'r cyhoedd a gyfarwyddwyd gan yr awduron presennol. Cafodd yr arolwg ei gynllunio er mwyn gallu cynnal dadansoddiadau cynhwysfawr a chymharol o'r rhyngweithio rhwng agweddau cyfansoddiadol, agweddau gwleidyddol, gwerthoedd cymdeithasol a hunaniaethau cenedlaethol ar draws pedair tiriogaeth Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon. Yn y Cyflwyniad hwn byddwn yn rhoi trosolwg byr o Arolwg Cyflwr yr Undeb cyn mynd ymlaen i egluro natur ein cydweithrediad â'r Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru wrth baratoi fersiwn 2023 o'r arolwg ac, yn gysylltiedig, ein dull o ddylunio'r holiadur. Yn olaf, byddwn yn amlinellu strwythur gweddill yr adroddiad.

*Golwg '360 gradd' ar yr Undeb*

Mae Arolwg Cyflwr yr Undeb yn adeiladu ar yr Arolwg Dyfodol Lloegr arloesol y mae ei ganfyddiadau wedi cael eu trafod yn fwyaf cynhwysfawr yn ein llyfr *Englishness: The political force transforming Britain* (Henderson ac Wyn Jones 2021a. A, Jeffery et al. 2014; Wyn Jones et al. 2012, 2013). Sefydlwyd Arolwg Cyflwr yr Undeb i fynd i'r afael â bwlch sylweddol yn seilwaith gwyddor cymdeithasol y DU roeddem yn teimlo a oedd yn dod yn fwy amlwg (gweler Henderson ac Wyn Jones 2021b).

Mae cwestiynau cyfansoddiadol sylfaenol wedi dominyddu trafodaethau gwleidyddol yn y DU ers degawd a mwy – gyda dyfodol yr undeb sy'n sail i'r wladwriaeth honno yn y fantol dros y cyfnod, boed hynny'n uniongyrchol (refferendwm Annibyniaeth yr Alban 2014) neu'n anuniongyrchol (refferendwm Brexit 2016). Serch hynny, mae ein gallu i ddeall agweddau'r cyhoedd at yr undeb hwnnw wedi cael ei gyfyngu gan yr hyn rydym wedi'i alw'n natur 'seilo' y dull o gasglu a dadansoddi data (Henderson et al 2020, Henderson ac Wyn Jones 2021a, 2021b, 2023).

Yn fras, mae gan Ogledd Iwerddon, Cymru a'r Alban eu seilwaith arolygu unigol eu hunain. Yn y cyfamser, mae 'arolygon Prydeinig' – oherwydd pwysau demograffeg – yn tueddu i fod yn arolygon Lloegr *de facto*, er nad yw'r rheini'n rhoi llawer o sylw i fanylion Lloegr na Seisnigrwydd. Mae hyn yn golygu, er bod gennym ddata rhagorol yn aml ar agweddau yn yr Alban, dyweder, at ddyfodol cyfansoddiadol y wlad honno, mae ein gwybodaeth am agweddau at ddyfodol yr Alban mewn rhannau eraill o'r wladwriaeth yn llawer llai sicr. Ond yn amlwg, mewn gwirionedd, mae'r gwahanol ddadleuon cyfansoddiadol yn gysylltiedig â'i gilydd. Yn gyntaf, maent yn gysylltiedig â'i gilydd yn yr ystyr bod y ddadl ynghylch perthynas y DU â'r UE yn croestorri â dadleuon am ddyfodol undeb domestig y DU. Mae hyn yn berthnasol i'r cyfyng-gyngor presennol yng Ngogledd Iwerddon ond roedd ein gwaith cynharach ar agweddau Lloegr yn yr un modd yn amlinellu cysylltiadau rhwng hunaniaeth Seisnig, Ewrosgeptigiaeth a'r hyn rydym wedi'i alw'n bryder-datganoli (synnwyr bod

Lloegr yn cael ei thrin yn annheg o fewn yr undeb o ganlyniad i ddatganoli rhannau o'r wladwriaeth ar wahân i Loegr). Yn ail, maent hefyd yn gysylltiedig yn yr ystyr bod dewisiadau am yr undeb domestig mewn un rhan o'r wladwriaeth yn anochel yn effeithio ar agweddau mewn rhannau eraill, ac mae hyn yn digwydd mewn nifer o ffyrdd cymhleth. I roi enghraifft ddamcaniaethol: hyd yn oed petai agweddau yn yr Alban yn ffafrio DU ffederal yn bennaf, mae'n debyg na fyddai modd cyflawni hyn yn llwyr oni bai fod pleidleiswyr mewn rhannau eraill o'r wladwriaeth yn fodlon ar drefniant o'r fath. Yn yr un modd, ni fyddai'r ffaith bod yr Alban neu Gymru yn ffafrio ffederaliaeth drwy rannu Lloegr yn unedau cyfansoddol rhanbarthol yn golygu y byddai etholwyr Lloegr o'r un farn. Felly, dim ond un rhan o'r darlun yw deall safbwyntiau mewn un rhan o'r wladwriaeth er bod honno'n rhan bwysig.

Mae'r arolwg mae'r adroddiad presennol yn deillio ohono yn wahanol, ac yn fwriadol felly. Fe'i datblygwyd yn benodol i ganiatáu ar gyfer astudiaeth gymharol o agweddau o fewn a rhwng pedair tiriogaeth y wladwriaeth (i gael rhagor o fanylion gweler yr Atodiad). Mae hyn yn cynnwys, inter alia, sicrhau maint sampl sy'n ddigon mawr ym mhob un o'r pedair tiriogaeth i ganiatáu ar gyfer dadansoddi priodol. Ond hefyd, mae'r holiaduron sy'n cael eu defnyddio yn y pedair tiriogaeth wedi cael eu dylunio i gynhyrchu'r hyn rydym yn ei alw'n ddealltwriaeth '360 gradd' o'r undeb. Mewn geiriau eraill, rydym wedi gofyn cwestiynau nid yn unig am agweddau yn yr Alban at le'r Alban yn yr undeb, ond hefyd am agweddau yn yr Alban at y berthynas rhwng Gogledd Iwerddon a Chymru a'r undeb, yn ogystal ag wrth gwrs at Loegr, ei lle yn yr undeb a'i threfniadau llywodraethu mewnol. Mae mabwysiadu'r dull hwn ar gyfer y pedair tiriogaeth yn rhoi cipolwg unigryw ar gyflwr agweddau at yr undeb ar draws ei diriogaethau, gan ein galluogi i archwilio'r berthynas rhwng dewisiadau cyfansoddiadol, agweddau gwleidyddol, gwerthoedd cymdeithasol a phatrymau hunaniaeth genedlaethol.

Rydym newydd gyhoeddi'r dadansoddiad cynhwysfawr cyntaf o'r canfyddiadau o iteriad 2021 o'r Arolwg o dan y teitl *The Ambivalent Union* (Henderson ac Wyn Jones 2023). Dylid ystyried yr adroddiad hwnnw fel sylfaen ar gyfer yr hyn sy'n dilyn. Er mwyn bod yn gryno, nid ydym wedi ceisio ailddatgan yr holl ddadleuon a wnaed ar ei dudalennau. Yn lle hynny, byddwn yn tybio gwybodaeth sylfaenol gan gyfeirio at elfennau penodol lle bo hynny'n arbennig o berthnasol.

*Adroddiad Interim y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru*

Cafodd arolwg 2023 ei baratoi gyda chefnogaeth y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru ac ar y cyd â'r Comisiwn. Er ein bod yn cynnal cwestiynau craidd o arolygon blaenorol, ac rydym wedi bod yn gofyn rhai ohonynt yn rheolaidd ers 2011, roedd arolwg 2023 yn cynnwys nifer o gwestiynau newydd a oedd wedi'u cynllunio i greu dealltwriaeth '360 gradd' o agweddau at yr opsiynau cyfansoddiadol posibl a amlygwyd yn adroddiad interim y Comisiwn (Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru 2022). Mae'n bwysig pwysleisio, er ein bod wedi cael nifer o sgyrsiau adeiladol gydag aelodau'r Comisiwn a'i banel

arbenigol – ac rydym yn ddiolchgar am hynny – mai ein penderfyniad ni oedd yr holl benderfyniadau terfynol a oedd yn ymwneud â dylunio'r holiadur a dadansoddi'r data.

Ar ôl dadansoddiad sy'n dod i'r casgliad nad yw'r sefyllfa bresennol yn gwasanaethu Cymru'n dda ac nad yw'n gynaliadwy, mae adroddiad interim y Comisiwn yn mynd ymlaen i nodi y byddai ei waith yn y dyfodol yn canolbwyntio ar yr opsiynau posibl canlynol ar gyfer cyfansoddiad Cymru:

- Fersiwn **wedi'i wreiddio** o ddatganoli;
- DU **ffederal** y byddai Cymru yn uned gyfansoddol ohoni; a,
- Cymru **annibynnol** (Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru: Adroddiad Interim, 2022: 8)

Rydym wedi defnyddio iteriad 2023 yr arolwg i archwilio agweddau'r cyhoedd at y tri opsiwn posibl hyn ar draws pedair tiriogaeth y wladwriaeth er mwyn helpu i lywio adroddiad terfynol y Comisiwn.

Wrth wneud y gwaith hwn, rydym wedi bod yn ymwybodol o ddau beth. Yn gyntaf, pwysigrwydd 'ychwanegu gwerth'. Mae rhai opsiynau – yn fwyaf amlwg, annibyniaeth Cymru a'r Alban ac ailuno Iwerddon – wedi cael eu canfasio'n ehangach na newidiadau posibl eraill, er enghraifft 'datganoli wedi'i wreiddio'. Nid yw'n syndod bod hyn yn golygu felly bod mwy o waith arolygu wedi'i wneud i ganfod agweddau'r cyhoedd at y cyntaf na'r olaf. Felly, rydym wedi ceisio canolbwyntio ein hymdrechion ar ddatblygu cwestiynau a fydd yn ein galluogi i ymchwilio i'r agweddau hynny ar ddiwygio'r undeb nad ydym yn gwybod cymaint amdanynt. Un o oblygiadau hyn yw y dylid darllen yr adroddiad cyfredol ochr yn ochr â data arall sydd ar gael am agweddau'r cyhoedd.

Yn ail, rydym wedi bod yn ymwybodol o'r peryglon sy'n gysylltiedig â gwneud gwaith arolygu ar faterion mae'r ddadl gyhoeddus yn eu cylch wedi bod yn gyfyngedig ac, yn wir, y mae arbenigwyr yn aml yn anghytuno yn eu cylch. Felly, hyd yn oed os yw'r llenyddiaeth academaidd ar y pwnc yn enfawr, o ystyried nad oes (cyn belled ag y gwyddom) unrhyw weledigaeth y cytunwyd arni ar gyfer DU ffederal, heb sôn am lasbrint ar gyfer hynny, nid oes llawer o bwynt holi'n uniongyrchol am agweddau yn haniaethol at ffederaliaeth gydweithredol neu ffederaliaeth ddeuol. Heb ryw lun o ddadl gyhoeddus am faterion o'r fath, nid yw unrhyw ymatebion i'r mathau hyn o gwestiynau'n debyg o fod yn ddefnyddiol. Fel y daw'n gliriach yn y bennod nesaf, ein hymateb i'r her hon fu archwilio agweddau at rai o'r cwestiynau, y materion neu'r egwyddorion cyntaf mwy cyffredinol a fydd yn siŵr o godi yng nghyd-destun unrhyw ymdrechion i lunio trefniadau cyfansoddiadol amgen. Rydym hefyd wedi archwilio agweddau at rai o'r elfennau unigol a allai – gyda'i gilydd – ffurfio darlun cyfansoddiadol mwy. Credwn yn gryf mai'r dull hwn o fesur agweddau'r cyhoedd – un sy'n archwiliadol, ac sy'n osgoi honiadau pendant sydd bron yn siŵr o fod yn rhai ffug – yw'r un mwyaf priodol yn y cyd-destun presennol.

Yn gysylltiedig, mae cyfran yr ymatebwyr sy'n dewis yr opsiwn 'Ddim yn gwybod' mewn perthynas â chwestiynau penodol hefyd yn aml yn ddadlennol, gan adlewyrchu'r cyd-destun a'r diwylliant gwleidyddol ehangach y mae'r ymatebwyr wedi'u gwreiddio ynddo. Mae ymatebwyr sy'n byw mewn rhannau o'r wladwriaeth lle mae mater penodol yn cael ei godi'n rheolaidd mewn dadl wleidyddol, yn cael ei drafod mewn adroddiadau newyddion, ac yn y blaen, yn llai tebygol o gynhyrchu lefelau uchel o ymatebion 'ddim yn gwybod' pan ofynnir iddynt am y mater hwnnw na thrigolion ardaloedd eraill lle mae'r mater yn absennol i raddau helaeth o ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae lefelau uchel o 'ddim yn gwybod' hefyd yn awgrymu bod potensial ar gyfer anwadalrwydd o ran dewisiadau'r cyhoedd. Felly, rydym yn dychwelyd at y mater hwn drwy gydol y broses.

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i rannu'n ddwy bennod fawr yn ogystal â chasgliad byr. Mae ein pennod nesaf yn canolbwyntio ar agweddau'r cyhoedd ar draws y DU at y tri opsiwn cyfansoddiadol a nodwyd yn adroddiad interim y Comisiwn fel rhai y mae'n werth eu hystyried ymhellach. Mae hyn yn cael ei ddilyn gan bennod sy'n canolbwyntio ar rai o'r heriau i'r rheini sy'n meddwl am ddyfodol cyfansoddiadol Cymru. Yn olaf, yn y Casgliad rydym yn crynhoi'r hyn rydym wedi'i ddysgu am agweddau'r cyhoedd at y tri opsiwn sy'n cael eu hystyried yn rhaglen waith gyfredol y Comisiwn.

# 2. Agweddau at ddyfodol cyfansoddiadol posibl

Fel rydym wedi'i weld, mae adroddiad interim y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru yn tynnu sylw at dri opsiwn posibl ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol Cymru y mae'n werth eu hystyried ymhellach. Dyma nhw:

- Fersiwn wedi'i wreiddio o ddatganoli;
- DU ffederal y byddai Cymru yn uned gyfansoddol ohoni; a,
- Cymru annibynnol.

Yma rydym yn mesur agweddau'r cyhoedd at bob opsiwn yn ei dro.

## 2.1 Datganoli wedi'i wreiddio

Er bod adroddiad interim y Comisiwn Annibynnol – yn optimistaidd efallai – yn awgrymu mai dyma'r hawsaf i'w weithredu o'r tri opsiwn sy'n cael eu hystyried, efallai mai dyma'r un anoddaf i fesur agweddau'r cyhoedd ato. Mae sawl rheswm dros hyn. Yn gyntaf, mae'r term ei hun yn newydd ac rydym yn amau bod y term yn dal yn gymharol anghyfarwydd i lawer o arbenigwyr cyfansoddiadol hyd yn oed. O'r herwydd, nid oes llawer o bwynt holi am agweddau ato mewn unrhyw ffordd uniongyrchol. Ar ben hynny, er y gallai'r syniad craidd fod yn ddigon syml – sicrhau na all San Steffan a/neu Whitehall sathru ar bwerau ac uchelfreintiau datganoledig – nid yw'n glir

beth mae hyn yn ei olygu mewn termau cyfansoddiadol. Er enghraifft, beth yw goblygiadau datganoli wedi'i wreiddio ar gyfer sofraniaeth seneddol? Ar yr olwg gyntaf, mae'n ymddangos y byddai datganoli wedi'i wreiddio'n cyd-fynd â'i goroesiad fel un o gonglfeini canolog dogma cyfansoddiadol y DU. Er hynny, mae adroddiad y Comisiwn ar Ddyfodol y DU (2022), o dan gadeiryddiaeth y cyn Brif Weinidog Gordon Brown, yn cynnig mecanweithiau amrywiol sy'n ceisio gwreiddio datganoli ar yr un pryd â'i gwneud yn amlwg nad yw'n herio sofraniaeth seneddol yn uniongyrchol (Morgan ac Wyn Jones 2023). Yn y cyfamser, mae adroddiad interim y Comisiwn Annibynnol yn gadael y cwestiwn sylfaenol hwn i'w ystyried ymhellach (Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru 2022: 75).

O ystyried yr heriau amrywiol hyn, y dull a fabwysiadwyd yn ein harolwg yn 2023 oedd gofyn cwestiynau sy'n ymchwilio i agweddau'r cyhoedd at amrywiaeth eang o faterion a/neu ddiwygiadau posibl y gellid eu hystyried yn berthnasol i unrhyw ymgais i wreiddio datganoli. Yma rydym yn adrodd ar y canlynol:

> **Blaenoriaethau diwygio** Er gwaethaf barn rhywun ynghylch a fyddai datganoli wedi'i wreiddio yn golygu herio athrawiaeth sofraniaeth seneddol yn uniongyrchol, mae'n amlwg y byddai'n galw am ddiwygio sefydliadau ac arferion canolog gwladwriaeth y DU yn sylfaenol. Mae hyn yn wahanol i hanes datganoli hyd yma sydd, fel y nodwyd yn rheolaidd, yn cyfuno newidiadau radical o gwmpas ymylon Celtaidd y DU gyda newidiadau bach i'w sefydliadau canolog. Felly, mae'r Comisiwn ar Ddyfodol y DU yn rhagweld, inter alia, disodli Tŷ'r Arglwyddi presennol gyda Chynulliad o'r Gwledydd a'r Rhanbarthau a fyddai'n gyfrifol am 'ddiogelu dosbarthiad cyfansoddiadol pwerau rhwng Senedd San Steffan a'r tair deddfwrfa ddatganoledig' (Y Comisiwn ar Ddyfodol y DU 2022: 140).
>
> Byddai diwygio'r wladwriaeth ganolog bron yn siŵr o olygu gwario llawer o amser ac ymdrech yn ogystal â buddsoddi cyfalaf gwleidyddol sylweddol – a fyddai i gyd yn anochel yn arwain at gostau cyfle sylweddol. Cwestiwn naturiol i'w ofyn yn y cyd-destun hwn felly yw, i ba raddau ceir tystiolaeth o awydd y cyhoedd i ddiwygio cyfansoddiad tiriogaethol y DU?
>
> **Confensiwn Sewel** Mae Confensiwn Sewel yn datgan na fydd Senedd San Steffan 'yn deddfu fel arfer' ar feysydd sydd o fewn cymhwysedd datganoledig heb gydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig eu hunain. Mae rhai datganolwyr felly'n teimlo ei fod yn warant bwysig i'r lefel ddatganoledig. Yn wir, ar ôl refferendwm Annibyniaeth yr Alban yn 2014 roedd ymdrechion i sicrhau bod datganoli'n 'barhaol' – yn iaith yr enwog 'Vow' erbyn hyn (Daily Record 2014) – roedd yn cynnwys gosod y Confensiwn yn y llyfr statud drwy Ddeddf yr Alban 2016 a Deddf Cymru 2017. Fodd bynnag, nid oedd gwerth i'r datblygiad hwn yn dilyn penderfyniad Goruchaf Lys y DU yn achos Miller, a oedd yn dangos nad

oedd Sewel mewn gwirionedd yn draddodadwy er ei fod yn y llyfr statud. Mae hyn yn golygu nad oes gan y deddfwrfeydd datganoledig unrhyw ffordd o wrthsefyll deddfwriaeth San Steffan sy'n tresmasu ar eu pwerau hyd yn oed os na fyddent yn rhoi eu cydsyniad. Yn fwy diweddar, mae llywodraeth y DU wedi torri'r Confensiwn yn rheolaidd fel rhan o'i hagwedd 'gyhyrol' at yr undeb.

Mae Sewel yn dod i'r amlwg mewn cyd-destunau eraill. Un o nodweddion canolog cynigion y Comisiwn ar Ddyfodol y DU i wreiddio datganoli yw ymgais arall i roi Sewel yn y llyfr statud, y tro hwn wedi'i addasu i ddileu'r cymhwyster 'ddim fel arfer' (gweler Morgan ac Wyn Jones 2023 am ddadansoddiad). Yn yr un modd, mae a26(5) o Ddeddf Covid yn datgan na chaiff yr Ysgrifennydd Gwladol 'osod gofyniad o dan a25 heb gydsyniad awdurdod...os ac i'r graddau y gallai'r awdurdod hwnnw ei hun fod wedi gosod y gofyniad'. Mae hon yn iaith gryfach na Sewel gan ei fod yn dileu'r rhagymadrodd 'ddim fel arfer'. O ystyried ei amlygrwydd, rydym felly'n ymchwilio i agweddau'r cyhoedd at Gonfensiwn Sewel. Ar ben hynny, yn dilyn darpariaethau Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020, mae Llywodraeth y DU nawr yn gwario arian yn y tiriogaethau datganoledig mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli – yn enw 'cryfhau'r undeb' (Lamont 2020) – rydym hefyd wedi cynnwys agweddau at ymgysylltiad y DU mewn materion datganoledig o ran deddfu a gwariant.

**Gwarant refferendwm?** I lawer o gefnogwyr datganoli, un o'r prif wrthwynebiadau i ymddygiad diweddar llywodraeth y DU at y sefydliadau datganoledig yw bod datganoli wedi'i sefydlu drwy fandad democrataidd, sy'n golygu, yn eu barn nhw, y dylai'r pwerau a'r uchelfreintiau datganoledig gael eu hamddiffyn rhag cael eu difrodi gan sofraniaeth seneddol San Steffan. Mewn termau academaidd, efallai y byddem yn galw hyn yn ddadl rhwng y pwys cymharol y dylid ei roi i sofraniaeth boblogaidd yn hytrach na sofraniaeth seneddol. Yma, rydym yn archwilio agweddau'r cyhoedd at y mater hwn drwy brism diddymu: a yw'r ffaith bod y sefydliadau datganoledig wedi cael eu sefydlu drwy refferenda yn golygu mai dim ond drwy refferenda y dylid eu dileu, yn hytrach na dim ond o ganlyniad i fwyafrif o ASau yn ffafrio diddymu?

**A ddylid caniatáu i lywodraeth y DU rwystro gweithgareddau'r lefel ddatganoledig?** Pryd, os o gwbl, dylid caniatáu i lywodraeth y DU rwystro gweithgareddau'r sefydliadau datganoledig? Mae hwn yn fater sydd wedi cael sylw amlwg yn yr Alban yn ddiweddar oherwydd penderfyniad y DU i atal gweithredu Bil Diwygio Cydnabod Rhywedd Senedd yr Alban – penderfyniad sy'n tanseilio'r setliadau datganoli ym marn llywodraethau'r Alban a Chymru. Gan roi manylion yr achos Diwygio Cydnabod Rhywedd o'r neilltu, rydym yn

archwilio agweddau'r cyhoedd ar draws rhannau'r DU at yr egwyddorion mwy cyffredinol dan sylw.

**Datrys Anghydfodau** Am flynyddoedd, pwynt dadleuol allweddol ynghylch y ffordd roedd datganoli wedi cael ei weithredu yn y DU oedd y gallai Llywodraeth y DU chwarae rhan y barnwr a'r rheithgor mewn unrhyw anghydfod rhyngddi hi a'r llywodraethau datganoledig. Enghraifft amlwg ddiweddar yw Llywodraeth y DU yn gwrthod darparu cyllid canlyniadol i Gymru o ganlyniad i'r buddsoddiad yn y prosiect rheilffordd HS2, er gwaethaf anogaeth Llywodraeth Cymru a Phwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin ar Faterion Cymreig, inter alia (i weld crynodeb o'r dadleuon amrywiol gweler Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin 2021.) Er bod diwygiadau diweddar i fecanweithiau cynnal cysylltiadau rhynglywodraethol wedi ceisio mynd i'r afael â'r pryder hwn, nid yw anghydfodau ynghylch materion ariannol – sef y rhai pwysicaf a mwyaf dadleuol – wedi cael eu cynnwys yn y trefniadau newydd. O ystyried bod datrys anghydfod felly bron yn sicr o barhau i fod yn bwynt gwan yn y trefniant presennol ar gyfer llywodraethu cyfansoddiad tiriogaethol y DU, mae'r adroddiad hwn yn cynnwys ystyriaeth o agweddau'r cyhoedd ato.

**Diwygio Tŷ'r Arglwyddi** Rydym eisoes wedi nodi bod diwygio ail siambr San Steffan i alluogi cynrychiolaeth diriogaethol yn rhan allweddol o gynllun y Comisiwn ar Ddyfodol y DU ar gyfer gwreiddio datganoli. Mae diwygio Tŷ'r Arglwyddi hefyd wedi chwarae rhan bwysig yng nghynnig Llywodraeth Cymru am undeb diwygiedig (Llywodraeth Cymru 2021: 14; a, Roberts 2012). Yma rydym yn archwilio agweddau'r cyhoedd at ddiwygio Tŷ'r Arglwyddi i sicrhau cynrychiolaeth diriogaethol.

**Cyfansoddiad Ysgrifenedig** Un ffordd o wreiddio datganoli yw drwy sefydlu cyfansoddiad ysgrifenedig (neu efallai'n fwy cywir, wedi'i godeiddio) ar gyfer y DU. Mae cyfansoddiad ysgrifenedig hefyd yn rhagofyniad ar gyfer sefydlu DU ffederal, pwnc is-adran nesaf y bennod hon. O'r herwydd, rydym yn archwilio agweddau'r cyhoedd at bosibilrwydd cyfansoddiad ysgrifenedig ar gyfer y DU.

Rydym yn cyflwyno ac yn dadansoddi data ar bob un o'r materion hyn yn eu tro.

### 2.1.1 Blaenoriaethau diwygio

O'n gwaith cynharaf ar agweddau yn Lloegr, rydym wedi bod yn gofyn i ymatebwyr nodi eu tair blaenoriaeth uchaf ar gyfer diwygio cyfansoddiadol. Er nad oes opsiwn ymateb cyfansoddiadol unigryw i Gymru, rydym wedi cadw'r opsiynau ymateb ar gyfer arolwg Cyflwr yr Undeb yn 2023 er mwyn darparu'r gyfres amser orau bosibl o ddata. Gan feddwl am darddiad y cwestiwn, rydym wedi 'sgorio' pwysigrwydd yn ôl trefn pwysigrwydd i etholwyr Lloegr, ond nodwn fod y cyfrannau

yn Lloegr sy'n blaenoriaethu cynrychiolaeth gyfrannol, diwygio Tŷ'r Arglwyddi a diwygio llywodraethu yn Lloegr yn debyg iawn (Ffig. 2.1).

Ffigur 2.1 Blaenoriaethau Diwygio Cyfansoddiadol (%)





*Cwestiwn: Yn eich barn chi, pa DRI o'r meysydd canlynol, os o gwbl, sydd angen eu gweithredu ar frys neu eu newid ar hyn o bryd? (Dewiswch hyd at dri opsiwn): Cryfhau llywodraeth leol; Diwygio Tŷ'r Arglwyddi; perthynas yr Alban â'r Deyrnas Unedig yn y dyfodol: Perthynas y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd; Sut mae Lloegr yn cael ei llywodraethu nawr bod gan yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon eu deddfwrfeydd eu hunain: Dyfodol Gogledd Iwerddon; System fwy cyfrannol ar gyfer ethol Aelodau Seneddol yn San Steffan; Dim un o'r rhain; Ddim yn gwybod*

Mae sawl pwynt i'w nodi. Y cyntaf yw'r flaenoriaeth a roddir i berthynas y DU ag Ewrop. Yn yr achos hwn, ychydig iawn o amrywiadau tiriogaethol sydd ar draws y tiriogaethau: mae'n flaenoriaeth allweddol i fwyafrif yr etholwyr yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Dyma'r flaenoriaeth bwysicaf yng Nghymru ac yn Lloegr. Mae hyn yn wir er ei bod bellach yn 7 mlynedd ers refferendwm Brexit. Fodd bynnag, yr hyn sydd wedi newid yn y cyfamser yw *pwy* sy'n poeni am Ewrop. Fel sy'n amlwg o Ffigur 2.2, mae'r rheini a bleidleisiodd dros Aros yn fwy tebygol na'r rheini a bleidleisiodd dros Adael o ddweud bod perthynas y DU ag Ewrop yn un o'u blaenoriaethau pwysicaf, ac mae hyn yn wir ar draws y DU.

Yr ail bwynt yw bod pleidleiswyr, pan gânt gynnig yr opsiwn (cf. Cymru), yn ystyried y trefniant ar gyfer eu tiriogaeth eu hunain yn flaenoriaeth allweddol. Mae hyn yn fwyaf amlwg yng Ngogledd Iwerddon a'r Alban lle mae tynged eu tiriogaethau nhw yn flaenoriaeth i'r mwyafrif, ond mae hefyd yn wir – er i raddau llai amlwg – yn Lloegr.  I'r gwrthwyneb, nid yw'r trefniant ar gyfer rhannau eraill o'r wladwriaeth yn flaenoriaeth allweddol mewn unrhyw ran o'r wladwriaeth – canfyddiad na fydd yn synnu darllenwyr ein hadroddiad ar *The Ambivalent Union*.

Ffigur 2.2 Y rheini sy'n blaenoriaethu perthynas y DU ag Ewrop yn ôl pleidlais Brexit (%)




Yn olaf, er nad oes mwyafrif yn yr un o'r pedair etholaeth yn rhoi blaenoriaeth i'r hyn y gallem ei alw'n ddiwygiadau cyfansoddiadol i'r DU gyfan – cynrychiolaeth gyfrannol a diwygio Tŷ'r Arglwyddi – mae lleiafrifoedd cymharol fawr ym mhob un sy'n rhoi blaenoriaeth i'r materion hyn. O ystyried bod diwygio Tŷ'r Arglwyddi, yn benodol, yn elfen ganolog o gynllun datganoli wedi'i wreiddio, gall cefnogwyr gael rhywfaint o gysur o hyn, yn enwedig gan ei bod yn amlwg bod rhai sy'n cefnogi diwygiadau o'r fath am resymau nad oes a wnelo fawr ddim neu ddim oll â'r cyfansoddiad tiriogaethol. Wedi dweud hynny, roedd yr ystod o opsiynau ymateb a roddwyd i ymatebwyr yr arolwg yn fwriadol gul ac yn 'lefel uchel'. Efallai na fyddai'n ddoeth rhoi gormod o bwys hyd yn oed ar y lefelau hyn o gefnogaeth heb wybod rhagor am ymatebion y cyhoedd i gynigion manylach i ddiwygio.

### 2.1.2 Confensiwn Sewel

Roeddem wedi archwilio agweddau at Gonfensiwn Sewel yn uniongyrchol – er ein bod wedi osgoi defnyddio'r term 'Confensiwn Sewel' ei hun! Fe wnaethom ofyn i'r ymatebwyr pa bryd, os o gwbl, roeddent yn meddwl y dylai Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig gan roi 5 ateb posibl (gweler Tabl 2.1). Dyma oedd yr opsiynau: pryd bynnag y mae'n dymuno gwneud hynny (yr hyn y byddem yn ei alw'n sefyllfa 'unoliaethwr cyhyrog'); ddim fel arfer heb ganiatâd y lefel ddatganoledig (geiriad Confensiwn Sewel – a amlygir yma mewn glas, ond nid yn yr arolwg ei hun); dim ond gyda chaniatâd y lefel ddatganoledig (y safbwynt a argymhellir yn adroddiad y Comisiwn ar Ddyfodol y DU); byth; a ddim yn gwybod.

Y pwynt cyntaf i'w nodi yw bod lefel yr atebion 'ddim yn gwybod' yn gymharol uchel, gan amrywio o tua un o bob pump i draean o'r etholwyr. Yn ail, yng Nghymru ac yn enwedig yn yr Alban, gwelwn gefnogaeth sylweddol i fwy na Sewel. Yn yr achosion hyn, mae'r cyfanswm sy'n dewis yr opsiynau 'dim ond gyda chaniatâd' a 'byth' yn fwy na'r cyfanswm sy'n dewis yr opsiynau Sewel a

‘pryd bynnag y mae’n dymuno gwneud hynny’. Hyd yn oed yn achos Lloegr a Gogledd Iwerddon, mae’r cydbwysedd barn yn pwyso at yr hyn y gellid ei alw’n ‘o leiaf Sewel’.


Tabl 2.1 Pryd dylai Senedd y DU ddeddfu mewn meysydd datganoledig? (%)


| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| Pryd bynnag y mae’n dymuno gwneud hynny | 17 | 12 | 14 | 17 |
| Ddim fel arfer heb ganiatâd | 24 | 19 | 20 | 28 |
| Dim ond gyda chaniatâd | 21 | 24 | 24 | 28 |
| Byth | 5 | 21 | 13 | 9 |
| Ddim yn gwybod | 33 | 23 | 29 | 18 |

*Cwestiwn: Mae’r setliadau datganoli presennol yn caniatáu i senedd y Deyrnas Unedig **ddeddfu** ar faterion datganoledig ar gyfer Cymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Pa un o’r datganiadau canlynol sydd agosaf at eich barn chi? Dylai Senedd y DU ddeddfu ar faterion datganoledig* ***pryd bynnag y mae’n dymuno gwneud hynny****, ni ddylai Senedd y DU* ***fel arfer*** *ddeddfu ar faterion datganoledig heb gydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig;* ***dim ond*** *gyda chaniatâd y deddfwrfeydd datganoledig y dylai Senedd y DU ddeddfu ar faterion datganoledig; ni ddylai Senedd y DU* ***fyth*** *ddeddfu ar faterion datganoledig; Ddim yn gwybod* [nid yw geiriau mewn print trwm yn ymddangos mewn print trwm i’r ymatebwyr.]

Drwy ddadansoddi’r ymatebion hyn ymhellach yn ôl hunaniaeth genedlaethol (Ffig. 2.3), yn ôl y disgwyl rydym yn gweld bod y rheini sy’n arddel hunaniaeth Brydeinig (yn enwedig yn y tiriogaethau datganoledig eu hunain) yn ffafrio opsiynau tuag at ben ‘pryd bynnag y mae’n dymuno gwneud hynny’ neu ‘Sewel’ y sbectrwm. I’r gwrthwyneb, mae’n well gan y rheini yn y tiriogaethau datganoledig (ond nid yn Lloegr) sy’n pwysleisio eu hunaniaeth genedlaethol is-wladwriaethol opsiynau tuag at ben ‘dim ond gyda chaniatâd’ a ‘byth’ y sbectrwm ymateb.

Ffigur 2.3 Sewel (deddfwriaeth) yn ôl Hunaniaeth Genedlaethol




O ystyried y dadlau a fu oherwydd Deddf Marchnad Fewnol y DU yn ogystal â phenderfyniad Llywodraeth y DU i ddileu'r lefel ddatganoledig o unrhyw arwyddocâd yn y cynlluniau dilynol sydd wedi disodli cyllid strwythurol yr UE (Gething 2022) – maes pwysig lle mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli o'r blaen – roeddem hefyd wedi archwilio agweddau'r cyhoedd at wariant Llywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig. Fe wnaethom ddefnyddio'r opsiynau ymateb sy'n seiliedig ar Sewel i'n galluogi i nodi unrhyw wahaniaethau mewn agweddau at ymgysylltiad y DU mewn gweithgareddau datganoledig drwy ddeddfwriaeth neu wariant.

Fel sy'n amlwg o Dabl 2.2, dyma achos arall lle gwelwn lefelau cymharol uchel o ymatebion 'ddim yn gwybod'. Yn bwysicach, dim ond yn yr Alban gwelwn ni fod y cyfanswm sy'n dewis naill ai'r opsiwn 'dim ond gyda chaniatâd' neu 'byth' yn uwch na chyfuniad o'r opsiynau 'ddim fel arfer heb gydsyniad' neu 'pryd bynnag y mae'n dymuno gwneud hynny'. Ac eto, yn y tair tiriogaeth arall, 'o leiaf Sewel' yw'r ffordd orau o ddisgrifio'r mwyafrif o safbwyntiau. O ran deddfwriaeth ac (i raddau ychydig yn llai amlwg) gwariant, mae agweddau'r cyhoedd ar draws y wladwriaeth o blaid agwedd 'o leiaf Sewel' at barchu cymwyseddau datganoledig. Yn achos deddfwriaeth – hynny yw, tiriogaeth Confensiwn Sewel go iawn – mae'r cydbwysedd barn yng Nghymru a'r Alban yn cefnogi'r farn mai *dim ond* gyda chydsyniad datganedig y seneddau datganoledig eu hunain y dylai San Steffan ddeddfu mewn meysydd o gymhwysedd datganoledig.

Tabl 2.2 Pryd dylai Llywodraeth y DU wario mewn meysydd datganoledig?

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| Pryd bynnag y mae'n dymuno gwneud hynny | 14 | 15 | 17 | 22 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ddim fel arfer heb ganiatâd | 21 | 18 | 19 | 23 |
| Dim ond gyda chaniatâd | 21 | 28 | 27 | 29 |
| Byth | 11 | 12 | 6 | 4 |
| Ddim yn gwybod | 33 | 27 | 32 | 22 |

*Cwestiwn: Mae'r setliadau datganoli presennol yn caniatáu i lywodraeth y Deyrnas Unedig **wario** ar faterion datganoledig yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Pa un o'r datganiadau canlynol sydd agosaf at eich barn chi? Dylai Llywodraeth y DU wario ar faterion datganoledig* ***pryd bynnag y mae'n dymuno gwneud hynny****; ni ddylai Llywodraeth y DU* ***fel arfer*** *wario ar faterion datganoledig heb gydsyniad y deddfwrfeydd datganoledig;* ***dim ond*** *gyda chaniatâd y deddfwrfeydd datganoledig y dylai Llywodraeth y DU wario ar faterion datganoledig; ni ddylai Llywodraeth y DU* ***fyth*** *wario ar faterion datganoledig; Ddim yn gwybod* [nid yw geiriau mewn print trwm yn ymddangos mewn print trwm i'r ymatebwyr.]


### 2.1.3 A ddylai mandad refferendwm ddiogelu datganoli?

Nid oes amheuaeth mai un o effeithiau cyfansoddiadol amlycaf Brexit fu adfywio athrawiaeth sofraniaeth seneddol, yn nhermau gwleidyddol a barnwrol. Ar gyfer y lefel ddatganoledig mae hyn eisoes wedi golygu dileu pwerau ac uchelfreintiau blaenorol yn erbyn ewyllys y deddfwrfeydd datganoledig eu hunain. Mae'r rhai sy'n dadlau o blaid datganoli wedi'i wreiddio'n credu bod y ffaith y sefydlwyd y sefydliadau datganoledig ar sail mandad democrataidd sy'n deillio o refferendwm yn golygu y dylai eu pwerau a'u huchelfreintiau o'r cyrff hyn gael statws gwarchodedig, er gwaethaf sofraniaeth seneddol. Gellid dehongli hyn oll fel anghytundeb ynghylch y pwysau cymharol y dylid eu priodoli i sofraniaeth boblogaidd yn hytrach na sofraniaeth seneddol.

I brofi agweddau'r cyhoedd, gofynnwyd i bobl a oeddent yn credu, ers creu'r deddfwrfeydd datganoledig drwy refferenda, mai dim ond drwy refferenda y dylid eu dileu. Mae'r yr ymatebion yn Ffigur 2.4 lle gwelwn gefnogaeth gref i'r farn na ddylid dileu datganoli heb refferendwm, gyda 50% yn cytuno yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hyd yn oed wrth gynnwys yr ymatebwyr 'ddim yn gwybod' yn y cyfansymiau cyffredinol. Wrth dynnu'r 'ddim yn gwybod' allan, mae'r cyfraddau cytuno yn amrywio o'r lefel isaf o 51% yn Lloegr i'r lefel isaf o 60% yng Nghymru a'r Alban (63% a 61% yn y drefn honno) i dros ddwy ran o dair (67%) yng Ngogledd Iwerddon.

Mae Ffigur 2.4 hefyd yn dangos y gwahaniaethau mewn ymatebion rhwng y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig a'r rheini sy'n arddel hunaniaeth yr Is-wladwriaeth. Er nad oes llawer o wahaniaeth yng Nghymru ac yn Lloegr, mae mwy o wahaniaeth yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon mae'r rheini sy'n arddel hunaniaeth yr is-wladwriaeth yn fwy cefnogol o fynnu refferendwm i ddiddymu datganoli na'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig.

Ffigur 2.4 **Dileu datganoli dim ond drwy refferendwm, pawb ac yn ôl hunaniaeth genedlaethol** (Wedi cyfuno Cytuno'n Gryf a Thueddu i Gytuno)




*Cwestiwn: Gan fod y deddfwrfeydd datganoledig yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon wedi'u sefydlu drwy refferenda, yr unig ffordd o gael gwared arnynt ddylai fod drwy refferendwm arall: Cytuno'n gryf; Tueddu i gytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Tueddu i anghytuno; Anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod.*


## 2.1.4 Pryd dylai'r DU gael rhwystro gweithgareddau llywodraethau datganoledig?

Pwynt dadleuol arall rhwng y DU a'r llywodraethau datganoledig – a rhywbeth sy'n ychwanegu rhagor o dân at y galwadau i wreiddio datganoli – yw penderfyniad llywodraeth y DU i arfer ei phwerau o dan adran 35 o Ddeddf yr Alban i rwystro gweithredu Bil Diwygio Cydnabod Rhywedd Senedd yr Alban. Gan symud oddi wrth fanylion y penderfyniad hwn, gofynnwyd i'n hymatebwyr o dan ba amgylchiadau (os o gwbl) roeddent yn credu y dylai llywodraeth y DU allu rhwystro gweithgareddau'r llywodraethau datganoledig. Yn yr achos hwn, roedd pegynau'r opsiynau ymateb yn debyg i'r rhai a ddefnyddiwyd wrth archwilio agweddau at gonfensiwn Sewel, sef 'pryd bynnag y mae'n dymuno gwneud hynny' a 'byth'. Roedd y ddau opsiwn yn y canol o reidrwydd yn wahanol. Sef 'os yw'n credu bod y corff datganoledig yn gweithredu o fewn ei bwerau ond os yw'n anghytuno â'i nodau polisi' ac 'os yw'n credu bod y corff datganoledig yn gweithredu y tu hwnt i'w bwerau' (hynny yw, y tu hwnt i'w awdurdod.)

Fel sy'n amlwg o Ffigur 2.5, mae'r gefnogaeth i'r opsiwn 'ddim yn gwybod' yn gymharol uchel, gan amrywio o 17% yng Ngogledd Iwerddon i 30% yn Lloegr. Mae hyn yn adlewyrchu tuedd fwy cyffredinol, sef bod ymatebwyr yn Lloegr fel arfer yn fwy petrus na'r rheini yn y tiriogaethau datganoledig. Wedi dweud hynny, y pwynt pwysicaf i'w nodi yw bod mwyafrif cymharol clir o'r ymatebwyr ym mhob un o'r 4 tiriogaeth yn dewis yr opsiwn 'tu hwnt i'w awdurdod' – hynny yw,

yn cefnogi'r farn mai dim ond os yw'r lefel ddatganoledig yn gweithredu y tu hwnt i'w bwerau y dylai Llywodraeth y DU ei rhwystro. Ym mhob achos, mae'r gefnogaeth i'r opsiwn hwn yn llawer mwy na'r opsiwn ymateb 'os yw'n anghytuno â'i nodau polisi' (43 o'i gymharu ag 8% yn Lloegr, 38 o'i gymharu â 5% yn yr Alban, 38 o'i gymharu â 6% yng Nghymru, a 43 o'i gymharu â 8% yng Ngogledd Iwerddon.)


Ffigur 2.5 Pryd dylai Llywodraeth y DU allu rhwystro gweithgareddau'r llywodraethau datganoledig?




*Cwestiwn: Mae'r setliadau datganoli presennol yn caniatáu i lywodraeth y DU rwystro gwahanol weithgareddau'r deddfwrfeydd datganoledig o dan amodau penodol. Ym mha amgylchiadau, os o gwbl, y dylai Llywodraeth y DU geisio rhwystro gweithgareddau'r gweinyddiaethau datganoledig? Os yw'n credu bod y corff datganoledig yn gweithredu y tu allan i'w bwerau penodedig; Os yw'n credu bod y corff datganoledig yn gweithredu o fewn ei bwerau penodedig ond nad yw'n cytuno â'r nodau polisi; Pryd bynnag mae'n dymuno gwneud hynny, mae Senedd y DU yn oruchaf; Byth, mae gan y cyrff datganoledig eu mandad democrataidd eu hunain; Ddim yn gwybod.*

Pwynt arall i'w nodi yw bod dadansoddi ymatebion yn ôl hunaniaeth genedlaethol yn datgelu gwahaniaethau diddorol mewn ymatebion i'r opsiynau 'byth' a 'gweithredu y tu allan i'w pwerau penodedig' (Ffigur 2.6). Mae'r ymatebwyr hynny y tu allan i Loegr sy'n uniaethu fwyaf â'u his-wladwriaeth yn fwy tebygol na'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Seisnig o ffafrio'r opsiwn 'byth' – ceir mwyafrif cymharol yn yr Alban. Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth i'r opsiwn hwn yn is o lawer ymysg y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig.

Ffigur 2.6 Ymatebion 'tu allan i'r pwerau penodedig' a 'byth', yn ôl hunaniaeth genedlaethol




Gan droi i ganolbwyntio ar y rheini sy'n dweud y dylai'r DU ymyrryd os yw'r deddfwrfeydd datganoledig yn gweithredu y tu hwnt i'w pwerau, mae'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yn gefnogol iawn i'r farn hon ar y cyfan. Yn wir, dyma ddewis mwyafrif cymharol y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yng Nghymru a dewis mwyafrif y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon. I'r gwrthwyneb, mae'r rheini sy'n arddel hunaniaeth yr is-wladwriaeth yn yr Alban a Chymru yn fwy cefnogol o'r opsiwn 'byth'.


### 2.1.5 Datrys Anghydfod

Mae datrys anghydfodau wedi bod yn gynnen allweddol ers tro byd rhwng llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig. Mae'n debygol o aros felly o ystyried nad yw'r trefniadau newydd a gyflwynwyd ddechrau 2022, hyd yn oed pan oeddent yn gweithio (roeddent wedi stopio gweithio pan ddaeth Truss yn Brif Weinidog yn nes ymlaen yn ystod y flwyddyn honno), wedi gwneud fawr ddim neu ddim o gwbl i fynd i'r afael â phryderon datganoledig ynghylch sut mae anghydfodau ariannol yn cael eu datrys. Fe wnaethom ofyn i'r ymatebwyr yn y pedair gwlad am eu barn gan gynnig yr opsiynau canlynol: llywodraeth y DU i ddatrys anghydfodau; corff annibynnol sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r pedair tiriogaeth i ddatrys anghydfodau; corff rhyngwladol i ddatrys anghydfodau; neu ddatrys anghydfodau mewn rhyw ffordd arall (amhenodol). Cafodd opsiwn 'ddim yn gwybod' hefyd ei gynnwys ac roeddem wedi gofyn i'r ymatebwyr a ddewisodd yr opsiwn 'rhywbeth arall' ysgrifennu'r ateb a oedd orau ganddynt.

Fel sy'n amlwg o Ffigur 2.7, ceir cefnogaeth gref iawn i'r cynnig i gael corff annibynnol y mae ei aelodau'n cynnwys cynrychiolwyr o'r pedair gwlad i ddatrys anghydfodau rhwng llywodraethau datganoledig a llywodraeth ganolog y DU. Mae'r gefnogaeth yn hynod gyson ar draws y DU, gan amrywio o'r lefel isaf sef 47% yn Lloegr i fwyafrif y pleidleiswyr yn yr Alban (54%), Cymru (53%) a Gogledd Iwerddon (56%). Ar ben hynny, mae'n ddewis sydd yr un mor boblogaidd ar draws yr holl grwpiau hunaniaeth genedlaethol. Mae'n werth nodi'n benodol bod yr opsiwn ymateb hwn – yr un sydd agosaf at yr ysbryd o wreiddio datganoli – yn fwy poblogaidd o lawer na'r opsiwn y gellid ei alw'n opsiwn sofraniaeth seneddol, sef y dylai llywodraeth y DU benderfynu ar unrhyw

anghydfod. Mae'r gefnogaeth ar gyfer yr opsiwn olaf yn amrywio o'r lefel isaf sef 16% yn yr Alban i'r lefel uchaf sef 22% yn Lloegr, gyda chefnogaeth yng Nghymru yn 18% a Gogledd Iwerddon yn 20%.

Ffigur 2.7 Sut dylid datrys anghydfodau rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth yn y DU?





*Cwestiwn: Pan fydd pobl yn sôn am newid y ffordd mae'r DU yn cael ei llywodraethu, mae hyn weithiau'n cynnwys corff sy'n gallu datrys anghydfodau rhwng lefelau llywodraeth. Gan feddwl am y trefniadau posibl i reoli anghydfodau rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth yn y DU, pwy ddylai gael y gair olaf yn eich barn chi? Llywodraeth y DU; Corff annibynnol yn y DU sydd â chynrychiolaeth gyfartal o Gymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon; Corff rhyngwladol annibynnol; Rhywbeth arall; Ddim yn gwybod.*

### 2.1.6 Diwygio Tŷ'r Arglwyddi

Mae diwygio'r ail siambr yn San Steffan i ganiatáu cynrychiolaeth diriogaethol wedi bod yn rhan annatod ers tro o'r cynigion i ddiwygio cyfansoddiad y DU a sicrhau'r hyn a elwir yn awr yn wreiddio datganoli. Gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn credu y dylid diwygio Tŷ'r Arglwyddi er mwyn gallu cynrychioli pedair rhan y DU yn ffurfiol? Mae eu hymatebion yn Ffigur 2.8. Gan ein bod yn cynnwys ymatebion 'ddim yn gwybod' yn y cyfansymiau cyffredinol, mae'n amlwg bod lefel uchel o gefnogaeth i'r syniad o sicrhau cynrychiolaeth diriogaethol mewn ail siambr ddiwygiedig, sy'n amrywio o 46% yn Lloegr i 57% yng Ngogledd Iwerddon. Mae hon hefyd yn enghraifft gymharol brin arall o safbwyntiau gweddol debyg (cadarnhaol) rhwng y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig a'r rheini sy'n arddel hunaniaeth yr is-wladwriaeth yn y tiriogaethau datganoledig. Mae Lloegr yn dipyn o eithriad gan fod ei thrigolion sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yn fwy cefnogol (50%) na'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Seisnig (40%), ond mae hyd yn oed yr olaf yn cynrychioli mwyafrif cymharol clir ymysg y grŵp hwnnw o bleidleiswyr.

Ffigur 2.8 Cynrychiolaeth diriogaethol yn Nhŷ'r Arglwyddi, pawb ac yn ôl hunaniaeth genedlaethol (Wedi cyfuno Cytuno'n Gryf a Thueddu i Gytuno)





*Cwestiwn: Pan fydd pobl yn sôn am newid y ffordd mae'r DU yn cael ei llywodraethu, mae hyn weithiau'n cynnwys diwygio Tŷ'r Arglwyddi i gynrychioli pedair tiriogaeth y DU yn ffurfiol. I ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y byddai hyn yn gwella trefn lywodraethu'r DU? Cytuno'n gryf; Tueddu i gytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Tueddu i anghytuno; Anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod.*

### 2.1.10 Cyfansoddiad Ysgrifenedig

Un ffordd o wreiddio datganoli fyddai cyflwyno cyfansoddiad ysgrifenedig neu wedi'i godeiddio sy'n gwneud yn union hynny. Byddai angen cyfansoddiad o'r fath yn sicr petai'r DU yn dod yn wladwriaeth ffederal. O'r herwydd, mae diwedd yr adran hon yn ystyried agweddau'r cyhoedd at gyfansoddiad ysgrifenedig.

Ffigur 2.9 Cefnogaeth i gyfansoddiad ysgrifenedig i'r DU, pawb ac yn ôl hunaniaeth genedlaethol




*Cwestiwn: Pan fydd pobl yn sôn am newid y ffordd y caiff y DU ei llywodraethu, mae hyn weithiau'n cynnwys cyfansoddiad ysgrifenedig sy'n nodi hawliau a chyfrifoldebau dinasyddion yn ogystal â phwerau gwahanol lefelau o lywodraeth. I ba raddau,*

*os o gwbl, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y byddai hyn yn gwella trefn lywodraethu'r DU? Cytuno'n gryf; Tueddu i gytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Tueddu i anghytuno; Anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod.*

Mae Ffigur 2.9 yn dangos bod cryn gefnogaeth i'r hyn a fyddai'n newid chwyldroadol o draddodiad cyfansoddiadol Lloegr/y DU – yn enwedig gan fod yr ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau cyffredinol. Mae'r gefnogaeth gyffredinol i gyfansoddiad ysgrifenedig yn amrywio o'r lefel isaf sef 41% yn Lloegr i'r lefel uchaf sef 46% yng Ngogledd Iwerddon. Gan ddadgyfuno ymatebion yn ôl hunaniaeth genedlaethol, rydym yn gweld cefnogaeth gref iawn gan y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yn Lloegr. Wedi dweud hynny, mae mwyafrif cymharol y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig a'r rheini sy'n arddel hunaniaeth yr is-wladwriaeth yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon yn cefnogi cyfansoddiad ysgrifenedig ar gyfer y wladwriaeth.

## 2.2 DU ffederal

Mae'r syniad o ffederaleiddio'r DU wedi bodoli ers amser maith (Kimble 1997), yn ymrwymiad polisi hirsefydlog i'r Democratiaid Rhyddfrydol, mae wedi ymddangos mewn gwahanol ffurfiau mewn dadleuon diweddar yn y Blaid Lafur (ee Griffin 2022), ac mae hefyd wedi cael cefnogaeth gan y felin syniadau marchnad rydd asgell dde y Sefydliad Materion Economaidd (Booth 2015). Er hynny, er bod gwahanol lasbrintiau wedi'u cyflwyno, nid oes consensws ar y ffurf i wladwriaeth o'r fath. Yn yr adran ganlynol, felly, rydym yn ystyried agweddau'r cyhoedd at dri mater sy'n berthnasol i *unrhyw* drafodaeth am DU ffederal. Y cyntaf yw'r cwestiwn sut y dylid llywodraethu Lloegr. Dadleuwyd ers tro byd – yn fwyaf adnabyddus efallai yn adroddiad Comisiwn Kilbrandon – fod Lloegr yn rhy fawr i'w hymgorffori fel un uned mewn unrhyw strwythur ffederal hyfyw. Gydag oddeutu 85% o boblogaeth y wladwriaeth yn byw yn Lloegr, dadleuir y byddai senedd a llywodraeth yn Lloegr yn anochel yn cystadlu am gyfreithlondeb a statws gyda'r cyrff cyfatebol ffederal ar draws y wladwriaeth. Ac eto, mae'r dull amgen – sy'n rhannu Lloegr yn unedau rhanbarthol llai – yn cael ei lethu gan ddiffyg consensws dros eu ffiniau, yn ogystal â gwaddol canrifoedd lawer o'r hyn na ellir ond ei ystyried (mewn termau cymharol, o leiaf) fel llywodraethu canolog iawn. Yma rydym yn edrych yn fanylach ar agweddau at **lywodraethu yn Lloegr** (fel y trafodwyd yn flaenorol yn Wyn Jones et al. 2012, 2013; Henderson ac Wyn Jones 2021a), gan ystyried hefyd safbwyntiau'r etholwyr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.


Beth bynnag fo'r unedau dan sylw, mae **sofraniaeth a rennir** wrth galon unrhyw drefniant ffederal. Yn ail, felly, rydym yn mesur agweddau at sofraniaeth a rennir. Rydym yn gwneud hyn drwy edrych ar safbwyntiau ar draws y DU am y posibilrwydd y bydd senedd y DU yn rhannu sofraniaeth â'r deddfwrfeydd datganoledig. Er nad yw hyn, wrth gwrs, yn cyfateb yn union i drefniant hollol ffederal, heb lasbrint y cytunwyd arno ar gyfer DU ffederal, mae'r dull hwn yn golygu ein bod yn gallu gwneud cwestiwn haniaethol iawn yn un concrit.

Fel y nodwyd eisoes, mae llawer o'r drafodaeth am ffederaliaeth yn ymwneud â'r cydbwysedd rhwng 'cyd-reoli' a 'hunan-reoli'. O ystyried hyn, yn nhrydedd ran a rhan olaf yr adran hon, rydym yn archwilio agweddau'r cyhoedd at **gydweithredu rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth**. Unwaith eto, rydym wedi ceisio gwneud y cwestiwn hwn yn un pendant drwy ganolbwyntio ar y berthynas rhwng y DU a'r llywodraethau datganoledig.

### 2.2.1 Llywodraethu yn Lloegr

Rydym yn dechrau drwy archwilio dewisiadau cyffredinol ar gyfer llywodraethu yn Lloegr. Fel opsiynau ymateb, rydym wedi cynnwys y gwahanol opsiynau sydd wedi cael eu canfasio dros y blynyddoedd diwethaf, sef: Gweinidog y DU dros Loegr; Gweinidogion y DU ar gyfer pob rhanbarth yn Lloegr; Senedd i Loegr; rhanbarthau dinesig gyda meiri metro; a Phleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr. Er bod hwn yn fater rydym wedi arolygu amdano'n rheolaidd yn Lloegr ers dros ddegawd, dyma'r tro cyntaf i ni allu dadansoddi'r canfyddiadau gyda data mae modd cymharu ag ef o Gymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon (Ffigur 2.10).

**Ffigur 2.10 Sut dylid llywodraethu Lloegr?** (Cytuno'n Gryf a Tueddu i Gytuno wedi'u cyfuno)





*Cwestiwn: Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'r syniadau canlynol i newid y ffordd caiff Lloegr ei llywodraethu wedi cael eu cynnig. Nodwch i ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob syniad: Gweinidog llywodraeth y DU dros Loegr; gweinidogion llywodraeth y DU ar gyfer pob un o ranbarthau Lloegr; Senedd i Loegr; Awdurdodau rhanbarthol sy'n seiliedig ar y prif ddinasoedd yn Lloegr (a elwir weithiau'n ddinas-ranbarthau o dan arweiniad meiri metro); Newid y rheolau yn senedd y DU fel mai dim ond Aelodau Seneddol Lloegr sy'n cael pleidleisio ar gyfreithiau a fyddai ond yn berthnasol yn Lloegr (a elwir weithiau'n bleidleisiau Lloegr dros ddeddfau Lloegr). Cytuno'n gryf; Tueddu i gytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Tueddu i anghytuno; Anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod.*

Fel sy'n glir, pleidleisiau Lloegr dros ddeddfau Lloegr yw'r opsiwn mwyaf poblogaidd ar gyfer llywodraethu Lloegr. Mae hyn wedi bod yn wir yn Lloegr ers i ni ddechrau holi amdano (Wyn

Jones et al. 2012), ond dyma'r opsiwn mwyaf poblogaidd *ar gyfer* Lloegr yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd. Gan fod gennym ddiddordeb yn bennaf mewn ffederaliaeth yn y cyd-destun presennol, ni fyddwn yn trafod pleidleisiau Lloegr dros ddeddfau Lloegr yn fwy manwl yma (byddwn yn dychwelyd at y mater hwn ym Mhennod 3 isod) ond rydym am wneud dau bwynt. Y cyntaf yw nodi, pan ddaeth fersiwn minimalaidd o bleidleisiau Lloegr dros ddeddfau Lloegr i rym (rhwng 2015 a 2020 – cafodd ei ddiddymu o'r diwedd yn 2021), mae ein hymchwil yn awgrymu mai dim ond cyfran fach iawn o'r etholwyr a sylwodd (Henderson 2021). Yn ail, er gwaethaf yr ymateb gelyniaethus dros ben i bleidleisiau Lloegr dros ddeddfau Lloegr gan ASau o'r Alban a Chymru, a honnodd ei fod wedi creu 'dau ddosbarth o AS' (BBC 2014), nid oedd yr elyniaeth hon yn cael ei rhannu gan etholwyr y tu allan i Loegr.

Yn fwy cyffredinol, yn Lloegr ei hun, rydym wedi canfod yn gyson, am dros ddegawd, nad oes llawer o gefnogaeth i'r hyn y gellid ei alw'n atebion rhanbarthol. Mae ein data 2023 yn dangos bod cefnogaeth i ddinas-ranbarthau gyda meiri metro, sef y polisi sy'n cael ei ffafrio gan y Blaid Geidwadol a'r Blaid Lafur, yn gyfartal â'r gefnogaeth i senedd i Loegr fel yr opsiwn lleiaf poblogaidd. Mae diffyg poblogrwydd y naill ddewis neu'r llall ymhlith etholwyr Lloegr yn broblem amlwg i eiriolwyr DU ffederal, ond mae hefyd yn drawiadol eu bod hyd yn oed yn llai poblogaidd y tu allan i Loegr yn y DU.

Ffigur 2.11 Lloegr – un uned neu ranbarthol?




*Cwestiwn: Gan feddwl am y trefniadau posibl ar gyfer deddfu ar gyfer Lloegr, sonnir yn aml am ddau opsiwn. Pe bai'n rhaid i chi ddewis, pa UN fyddai orau gennych chi? Trin Lloegr gyfan fel un uned; Trin pob un o ranbarthau Lloegr fel uned wahanol; Arall; Ddim yn gwybod.*

Gan fod maint cymharol Lloegr yn cael ei nodi fel un o'r prif rwystrau i gynllun llywodraeth ffederal ymarferol ar gyfer y DU, fe wnaethom ofyn i'n hymatebwyr a oeddent yn credu y dylid trin Lloegr fel un uned ynteu a ddylid cael unedau rhanbarthol gwahanol yn Lloegr. O'i fframio fel hyn (gweler Ffigur 2.11), mae'n amlwg bod mwyafrif y pleidleiswyr yn Lloegr yn credu y dylid trin Lloegr fel un uned (57%), ond ar ben hynny dyma hefyd y dewis sy'n cael ei ffafrio yn yr Alban (50%), Cymru (54%) a Gogledd Iwerddon (57%). Mae hi hefyd yn werth nodi bod y farn hon yn Lloegr yn mynnu


cefnogaeth fwyafrifol nid yn unig ymysg y rheini sy'n arddel hunaniaeth Seisnig (72%) ond hefyd ymysg y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig (53%). Mae hyn yn rhwystr mawr sy'n wynebu'r rheini sydd eisiau diwygio. Nid yw Lloegr ei hun yn ffafrio'r opsiwn sy'n cael ei ystyried fel yr un lleiaf ansefydlog i'r wladwriaeth gyfan – sef rhannu Lloegr yn rhanbarthau sy'n nes at faint y tiriogaethau datganoledig presennol.

### 2.2.2 Sofraniaeth a rennir

Byddai ffederaliaeth – system o rannu sofraniaeth – yn amlwg yn torri traddodiad cyfansoddiadol Lloegr o sofraniaeth seneddol ac, yn gysylltiedig â hynny, llawer o strwythurau ac arferion gwladwriaeth y DU fel y'i cyfansoddir ar hyn o bryd. Ond hyd yn oed wrth dderbyn hyn, mae'n ymddangos na fydd archwilio agweddau'r cyhoedd at rannu sofraniaeth yn haniaethol yn rhoi llawer o afael ar safbwyntiau gwleidyddol y byd go iawn ar draws y DU, yng nghyd-destun y cysylltiadau damcaniaethol rhwng cyrff damcaniaethol neu o leiaf cyrff sydd wedi cael eu hailgyfansoddi'n radical. Rydym felly'n hytrach wedi gofyn i'r ymatebwyr am eu hagweddau at rannu sofraniaeth rhwng senedd y DU a'r deddfwrfeydd datganoledig, ac roedd ein cwestiwn hefyd yn ceisio egluro'n syml beth mae sofraniaeth yn ei olygu. Er ein bod yn derbyn cyfyngiadau cynhenid y dull hwn, mae'r ymatebion (yn Ffigur 2.12) yn ddifyr.

Y peth cyntaf i'w nodi yw bod cyfran yr ymatebwyr sy'n dewis yr opsiwn 'ddim yn gwybod' yn gymharol uchel, sef tua 3 ymatebydd o bob 10 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban – ond tua 2 o bob 10 yng Ngogledd Iwerddon. Ar ben hynny, mae'r gyfran sy'n dewis pwynt canol y raddfa 5 pwynt rhwng sofraniaeth seneddol a rennir a sofraniaeth y DU hefyd yn gymharol uchel yn Lloegr (18%), Cymru (17%) a Gogledd Iwerddon (18%), er ychydig yn is yn yr Alban (13%). Dylid cofio hyn i gyd wrth ddehongli'r canfyddiadau oherwydd efallai fod hyn yn dangos nad yw hyn yn fater y mae gan lawer o'r etholwyr safbwyntiau arbennig o gryf neu ddatblygedig yn ei gylch.

Ffigur 2.12 Sofraniaeth seneddol a rennir yn erbyn sofraniaeth seneddol y DU



Cwestiwn: Pan fydd pobl yn sôn am newid y ffordd mae'r DU yn cael ei llywodraethu, mae hyn weithiau'n cynnwys y syniad y dylai Senedd y DU rannu sofraniaeth (ei goruchaf bŵer i wneud deddfau) â'r deddfwrfeydd datganoledig. Mae pobl eraill yn dadlau y dylai sofraniaeth Senedd y DU barhau heb ei gwanhau. Ar y raddfa ganlynol, pa un sydd agosaf at eich barn chi?


Wedi dweud hynny, mae'n ymddangos yn glir bod mwy o gefnogaeth i rannu sofraniaeth yn y tiriogaethau datganoledig nag yn Lloegr. Mae hi'n amlwg bod yr Alban yn ffafrio rhannu sofraniaeth. Mae'r safbwyntiau yng Nghymru a Gogledd Iwerddon wedi'u rhannu'n gyfartal rhwng y rheini sydd o blaid sofraniaeth a rennir a sofraniaeth seneddol (gyda'r cafeat bod cyfran yr ymatebion 'ddim yn gwybod' yn llai yn yng Ngogledd Iwerddon). Ar sail y dystiolaeth hon, mae hi'n amlwg yn anodd canfod ffordd ymlaen sy'n dderbyniol i'r ddwy ochr.

### 2.2.3 Cydweithio rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth

O ystyried y ffocws ar 'gyd-reoli' a 'hunan-reoli' sy'n nodwedd o lawer o'r drafodaeth academaidd ar ffederaliaeth, roeddem yn awyddus i ddarganfod barn amrywiol etholwyr y DU ar y mater hwn. Fe wnaethom hynny drwy ofyn i'n hymatebwyr a oeddent yn meddwl y gellir gwella'r ffordd caiff y DU ei llywodraethu pe bai llywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig yn cydweithio mwy neu'n canolbwyntio mwy ar eu cyfrifoldebau eu hunain. Mae hyn yn cael ei fframio fel hyn er mwyn portreadu pob ochr o'r ddadl mewn ffordd gadarnhaol. Byddai holi am y naill neu'r llall ar eu pen eu hunain wedi arwain at gytundeb cryf â'r ddau, ond mae'r raddfa ddwbl hon yn ein galluogi i ddeall sut mae'r ymatebwyr yn ymateb i'r cyfaddawd.

Roedd yr ymatebion yn bendant (Ffigur 2.13). Roedd mwyafrif helaeth yn y pedair tiriogaeth, gan amrywio o'r lefel isaf sef 58% yn yr Alban i'r lefel uchaf sef 65% yn Lloegr, yn ffafrio mwy o gydweithio – roedd hyn eto yn cynnwys yr ymatebion 'ddim yn gwybod' yn y cyfansymiau cyffredinol. Eto i gyd, nid yw'n syml dehongli goblygiadau'r canfyddiadau hyn. Mae canfyddiadau eraill rydym wedi sôn amdanynt yn yr adran flaenorol yn awgrymu nad yw'r cyhoedd yn cefnogi gweld y DU yn cymryd mwy o ran mewn meysydd cyfrifoldeb datganoledig, sy'n awgrymu na ddylid dehongli bod cefnogi 'mwy o gydweithio' yn golygu cefnogi rhoi mwy o rôl i lywodraeth y DU mewn meysydd polisi sydd wedi'u datganoli. Yn gysylltiedig, efallai byddwn hefyd yn cofio, fel yr adroddwyd yn ein hadroddiad ar *The Ambivalent Union*, bod cefnogaeth gref ymysg y cyhoedd i rai o'r gwahaniaethau mwy dadleuol yn nulliau'r gwahanol lywodraethau o ymdrin â phandemig Covid, gan gynnwys gwaharddiadau teithio. Ac eto, mae'n ymddangos yr un mor annhebygol y dylid ystyried bod y canfyddiadau hyn yn awgrymu y byddai'r cyhoedd ar draws pedair tiriogaeth y DU yn cefnogi mwy o ymwneud ar lefel ddatganoledig wrth wneud penderfyniadau'r wladwriaeth ganolog. Fel rydym yn ei ddweud: nid yw'n syml dehongli arwyddocâd y canfyddiadau hyn!

**Ffigur 2.13 Llywodraethu'r DU: Cydweithio ynteu Ganolbwyntio ar eu cyfrifoldebau eu hunain?**




*Cwestiwn: Pa un sydd agosaf at eich barn chi? Byddai trefniadau llywodraethu'r DU yn well pe bai'r gweinyddiaethau datganoledig a'r DU yn cydweithio mwy ar faterion o ddiddordeb cyffredin; byddai trefniadau llywodraethu'r DU yn well pe bai'r DU a'r gweinyddiaethau datganoledig yn canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau eu hunain; Ddim yn gwybod.*

## 2.3 Annibyniaeth/Ailuno


O ystyried amlygrwydd gwleidyddol annibyniaeth yr Alban cyn ac ar ôl refferendwm annibyniaeth 2014, yn ogystal â'r cynnydd yn y diddordeb mewn uno Iwerddon ac annibyniaeth Cymru ers refferendwm Brexit 2016, a'r drafodaeth am hynny, mae llawer iawn o arolygon wedi cael eu cynnal er mwyn archwilio agweddau'r cyhoedd at y materion hyn yn y tiriogaethau dan sylw. Yn yr adran hon rydym yn defnyddio ein harolwg '360 gradd' i ategu'r gwaith hwn, gan wneud hynny mewn dwy ffordd gysylltiedig. Yn gyntaf, rydym yn cymharu patrymau'r gefnogaeth at annibyniaeth/ailuno ar draws pedair rhan y wladwriaeth. Yn ail, rydym yn ystyried agweddau at uniondeb tiriogaethol y DU fel y'i cyfansoddir ar hyn o bryd, gan ddangos bodolaeth safbwynt amhendant iawn o'r undeb, yn enwedig yn ei ran fwyaf. Dylid nodi, yn y ddau achos, ein bod yn diweddaru gyda data mwy diweddar y dadansoddiad a gyhoeddwyd yn ein hadroddiad ar *The Ambivalent Union* (tudalennau 23-29).

2.3.1 Patrymau cefnogaeth ar gyfer annibyniaeth/ailuno

Mae hi'n arferol gofyn i ymatebwyr yr arolwg am eu hagweddau at annibyniaeth/ailuno mewn fformat deuaidd Ydw/Nac ydw, bron bob tro – fel y nodwyd eisoes – yng nghyd-destun eu rhan 'nhw' o'r wladwriaeth yn unig. Rydym ni'n mabwysiadu dull gweithredu gwahanol gan ofyn i'r ymatebwyr sgorio eu barn ar annibyniaeth/ailuno ar raddfa o -10 i +10 (gyda'r rhifau positif yn dangos eu bod yn cefnogi newid) ac ar gyfer pob un o bedair tiriogaeth y wladwriaeth. Mae'r ymatebion i'w gweld yn Ffigur 2.14 gyda phob dot yn cynrychioli'r hyn mae etholwyr y lle hwnnw'n credu ddylai fod y dyfodol ar gyfer y diriogaeth dan sylw (mewn rhes lorweddol.) Felly, mae'r rhes uchaf yn rhoi darlun cymharol o'r hyn mae pleidleiswyr ym mhob un o'r pedair tiriogaeth yn ei feddwl o annibyniaeth Lloegr ar gyfartaledd.

Mae hi'n amlwg bod yr agweddau'n hofran o amgylch y pwynt canol – mae'r ymatebion cyfartalog yn amrywio o -4 i +2 felly nid yw'n wir bod mwyafrif llethol yn cefnogi cynnal neu wrthod ffin bresennol y DU. Mae cefnogaeth i Loegr annibynnol ac i Gymru annibynnol o dan y pwynt canol 0. Y tu allan i'r Alban nid oes llawer o gefnogaeth i annibyniaeth yr Alban, mae hefyd yn is na 0 er bod barn yr Alban bron yn union ar y pwynt canol (-0.1). Mae agweddau at ailuno yng Ngogledd Iwerddon yn dra gwahanol. Er bod agweddau yng Ngogledd Iwerddon ei hun yn disgyn yn agos iawn at y pwynt canol (+0.3), mae'r etholwyr yng Nghymru, Lloegr a'r Alban i gyd yn fwy cefnogol yng nghyd-destun ailuno.

Ffigur 2.14 Cefnogaeth ar gyfer annibyniaeth/ailuno yn ôl tiriogaeth (Nac ydw i Ydw)





*Cwestiwn: Ar raddfa rhwng -10 a +10, lle mae -10 yn Bendant yn Nac ydw ac mae +10 yn Bendant yn Ydw, ydych chi'n meddwl y dylai [x] fod yn wlad annibynnol? ac ati*

Fodd bynnag, dim ond rhan o'r stori sy'n cael ei rhoi gan y sgoriau cyfansymiol. Yn Ffigur 2.15 rydym yn dangos dosbarthiad y gefnogaeth ar gyfer annibyniaeth/ailuno ymysg ymatebwyr ar gyfer

eu tiriogaeth eu hunain. Mae hyn yn dangos mai'r sail i hyn yw set o ddewisiadau sydd wedi'u pegynu'n glir, hyd yn oed os yw'r canlyniadau cyfanredol yn tueddu i glystyru o amgylch y pwynt canol (Ffigur 2.14). Mewn geiriau eraill, mae agweddau ar lefel unigolion at safle eu tiriogaeth eu hunain o fewn y wladwriaeth ymhell o fod yn amhendant ond yn hytrach yn tueddu i fod yn bendant iawn. Rydym hefyd yn gweld gwahaniaeth clir rhwng yr Alban a Gogledd Iwerddon, ar y naill law, a Chymru a Lloegr, ar y llaw arall. Yn y cyntaf, rydym yn dod o hyd i gromlinau siâp U gyda chefnogaeth a gwrthwynebiad sydd bron yr un mor gryf i annibyniaeth/ailuno ar bob pen o'n graddfa -10/+10. Mae hyn yn wahanol i'r olaf lle mae'r cydbwysedd barn yn erbyn newid.

Ffigur 2.15 Dosbarthiad cefnogaeth ar gyfer annibyniaeth/ailuno yn ei diriogaeth ei hun





## 2.3.2 Uniondeb tiriogaethol ac unoliaetholdeb amhendant

Ystyrir mai cynnal uniondeb tiriogaethol y wladwriaeth yw un o'r blaenoriaethau gwleidyddol pwysicaf – os nad y pwysicaf – yn y rhan fwyaf o systemau gwleidyddol. Mae ein canfyddiadau o ran agweddau at bosibilrwydd Iwerddon unedig yng Nghymru, Lloegr a'r Alban eisoes wedi dangos nad yw hyn yn wir yn y DU. Mae hyn yn cael ei danlinellu ymhellach gan yr ymatebion i gwestiwn arall sy'n ymchwilio i agweddau cyfansoddiadol at uniondeb tiriogaethol y wladwriaeth yn ei chyfanrwydd gan gynnig tri opsiwn ymateb o sylwedd: Rydw i'n cefnogi annibyniaeth/ailuno ar gyfer fy rhan i o'r wladwriaeth; dydw i ddim yn cefnogi annibyniaeth/ailuno ac mae'n flaenoriaeth i mi fod yr undeb yn aros fel y mae; ac, dydw i ddim yn cefnogi annibyniaeth/ailuno ar gyfer fy rhan fy hun o'r wladwriaeth, ond os bydd un neu fwy o rannau eraill o'r DU yn penderfynu mynd eu

ffordd eu hunain, yna dyna ni. Yn ein gwaith blaenorol rydym wedi galw'r ail safle yn **unoliaetholdeb amhendant** (Henderson ac Wyn Jones 2021b, 2023).

Mae Ffigur 2.16 yn nodi'r ymatebion i'r cwestiwn hwn yn arolwg 2023. Unwaith eto, rydym yn canfod rhagor o dystiolaeth o begynu'r etholwyr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon: mae cyfrannau gweddol gyfartal o'r etholwyr yn cefnogi newid radical neu'n rhoi blaenoriaeth i gynnal yr undeb yn ei ffurf bresennol, gydag oddeutu 15% yn y ddau achos yn mabwysiadu'r safle unoliaetholdeb amhendant. Yn Lloegr mae'r rhan fwyaf o unoliaethwyr amhendant: mae cyfran yr etholwyr sy'n mabwysiadu'r safbwynt unoliaetholdeb amhendant yn cyfateb yn fras i'r gyfran sy'n dweud eu bod yn rhoi blaenoriaeth i gynnal yr undeb ar ei ffurf bresennol, gyda dim ond 9% yn dewis yr opsiwn annibyniaeth. (Nodwn fod hyn yn cynrychioli gostyngiad yn y gefnogaeth i annibyniaeth Lloegr ers ein harolwg yn 2021 pan roedd y ffigur cyfatebol yn 16%). Yng Nghymru, mae cyfran y rhai sy'n dweud eu bod yn blaenoriaethu cynnal yr undeb ar ei ffurf bresennol (44%) ddwywaith yn fwy na'r ganran sy'n dewis yr opsiwn annibyniaeth (22%), gydag 20% arall yn dewis y sefyllfa undeb amhendant.

Ffigur 2.16 Unoliaethwyr, Unoliaethwyr Amhendant ac Ymwahanwyr




Cwestiwn: Pa un sydd agosaf at eich barn chi? Dydw i ddim eisiau annibyniaeth i Gymru ond os bydd un neu fwy o rannau eraill o'r DU yn penderfynu eu bod nhw eisiau mynd eu ffordd eu hunain, dyna ni; rydw i eisiau i Gymru fod yn annibynnol ar weddill y DU; dydw i ddim eisiau annibyniaeth i Gymru ac mae'n flaenoriaeth i mi fod y DU yn aros fel y mae, undeb sy'n cynnwys Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon; Ddim yn gwybod. [Ac yn y blaen]

Felly, yn gyffredinol, os ydym yn cyfuno'r rheini sy'n cefnogi annibyniaeth/ailuno'n weithredol â'r unoliaethwyr amhendant ac yn ystyried bod y grŵp hwn yn cynrychioli'r rheini nad ydynt wedi ymrwymo'n llwyr i uniondeb tiriogaethol y wladwriaeth fel y'i lluniwyd ar hyn o bryd, gwelwn ei fod yn fwy na'r grŵp sy'n ystyried cynnal yr undeb ar ei ffurf bresennol fel blaenoriaeth ym mhob rhan o'r wladwriaeth ac eithrio Cymru. Yn wir, os nad ydym yn cynnwys yr ymatebwyr 'ddim yn gwybod', yna – y tu allan i Gymru – rydym yn cyrraedd mwy na 50% o'r etholwyr ym mhob rhan o'r DU. Ac wrth gwrs, fel y gwelsom yn Ffigur 2.14, pan ofynnwyd yn benodol am Ogledd

Iwerddon, mae cefnogaeth etholwyr Cymru i'r undeb fel y mae wedi'i siapio ar hyn o bryd hefyd yn diflannu.


# 3. Heriau

Yn y bennod flaenorol, fe wnaethom gyflwyno a dadansoddi tystiolaeth o Arolwg Cyflwr yr Undeb 2023 fel y mae'n ymwneud â'r tri senario ar gyfer dyfodol cyfansoddiadol posibl Cymru sy'n cael eu hystyried gan y Comisiwn Annibynnol ar hyn o bryd. Yma, rydym yn ystyried tystiolaeth o'r un ffynhonnell sy'n tanlinellu'r heriau sy'n wynebu unrhyw un sy'n ystyried dyfodol y DU o ddifrif. Yn ganolog i'r heriau hyn mae'r ffyrdd y mae'r gwahanol ffyrdd o hollti – pleidiol, cyfansoddiadol, hunaniaeth genedlaethol – yn rhyngweithio â safbwyntiau a dewisiadau. Unwaith eto, rydym yn manteisio ar y cyfle i ddiweddaru rhannau o'r dadansoddiad a gyflwynir yn ein hadroddiad ar *The Ambivalent Union* gan ddefnyddio data mwy diweddar.

## 3.1 Anniddigrwydd tiriogaethol

Rydym wedi nodi ers tro bod ymdeimlad o anniddigrwydd tiriogaethol ar draws gwahanol rannau o'r DU – ymdeimlad bod rhai rhannau (eich rhan chi fel arfer) yn cael llai na'r hyn sy'n ddyledus iddynt, tra bod eraill yn cael mwy (Henderson ac Wyn Jones 2021a, 2021b, 2023; Wyn Jones et al. 2012, 2013). Yma rydym yn canolbwyntio ar gwestiwn yn arolwg 2023 sy'n gofyn i'r ymatebwyr a ydynt yn credu bod gwahanol rannau o'r wladwriaeth yn cael mwy na'u cyfran deg, llai na'u cyfran deg neu tua eu cyfran deg o adnoddau (i gael trosolwg llawn o ganlyniadau 2021, gweler Henderson ac Wyn Jones 2023: 14). Er mwyn bod yn glir, rydym yn dangos (yn Ffigur 3.1) dim ond y cyfrannau hynny sy'n dweud bod eu rhan nhw yn cael *llai* na'i chyfran deg hy y rheini yn Lloegr sy'n dweud bod Lloegr yn cael llai na'i chyfran deg (ac yn y blaen). Rydym hefyd yn dadgyfuno'r ymatebion yn ôl hunaniaeth genedlaethol.

Ffigur 3.1 Mae fy rhan i'n cael llai na'i chyfran deg, pawb ac yn ôl hunaniaeth genedlaethol (%)



Cwestiwn: A fyddech chi'n dweud wrth gymharu â rhannau eraill o'r DU, bod pob un o'r rhain yn cael ei chyfran deg o wariant y llywodraeth, mwy na'i chyfran deg neu lai na'i chyfran deg? Lloegr; Yr Alban; Cymru; Gogledd Iwerddon. Yn cael ei chyfran deg; Yn cael mwy na'i chyfran deg; Yn cael llai na'i chyfran deg; Ddim yn gwybod

Mae sawl peth i'w nodi yma. Y cyntaf yw bod ymatebwyr yn y tiriogaethau datganoledig yn llawer mwy tebygol nag ymatebwyr yn Lloegr o ddweud bod eu rhan nhw yn cael llai na'i chyfran deg. Gan gadarnhau ein canfyddiadau blaenorol, gwelwn fod y farn hon gryfaf yng Nghymru.

Ond mae'n glir hefyd bod gwahaniaethau mawr yn y farn ar draws grwpiau hunaniaeth genedlaethol gwahanol. Ym mhob achos mae'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yn llai tebygol o gredu bod eu rhan nhw o'r wladwriaeth yn cael llai na'i chyfran deg – yn enwedig yn yr Alban – ac, i'r gwrthwyneb, mae'r rheini sy'n arddel hunaniaeth is-wladwriaeth yn llawer mwy tebygol o gredu mai dyna yw'r achos. Mewn geiriau eraill, mae'r ymdeimlad o anniddigrwydd am adnoddau yn gysylltiedig â hunaniaeth genedlaethol. Fodd bynnag, mae'n wir hefyd bod lefel y pegynu rhwng grwpiau hunaniaeth ar y mater hwn yn amrywio'n sylweddol ar draws y wladwriaeth. Nid yw hyn mor amlwg yn Lloegr a Gogledd Iwerddon (lle mae'r bwlch rhwng safbwyntiau'r grwpiau hunaniaeth yn 10 pwynt ac yn 14 pwynt yn y drefn honno) ag yng Nghymru a'r Alban (lle mae'r bwlch yn ymestyn i 27 pwynt a 40 pwynt eithriadol.)

## 3.2 Peryglon Unoliaetholdeb Gyhyrol

Mae'r dull a fabwysiadwyd gan wladwriaeth y DU i'w pherthynas â'r llywodraethau datganoledig yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi'i nodweddu fel 'unoliaetholdeb gyhyrol', term a ddefnyddir gyntaf gyda Llafur yr Alban (Henderson 2020). Rydym wedi datblygu graddfa er mwyn archwilio i ba raddau y mae agweddau'r cyhoedd yn cyd-fynd â'r farn hon am yr undeb, sy'n cael ei hegluro'n fanwl yn adroddiad *The Ambivalent Union*.


Blwch 3.1

| | | |
|---|---|---|
| **Gwerthoedd Prydeinig yw'r glud sy'n dal y wladwriaeth hon at ei gilydd** | Vs | Does dim fath beth â gwerthoedd Prydeinig, dim ond gwerthoedd gwahanol mewn gwahanol rannau o'r wladwriaeth |
| Mae pobl yn cefnogi newid cyfansoddiadol oherwydd bod problemau sylfaenol gyda'r trefniadau presennol | Vs | **Mae pobl yn cefnogi newid cyfansoddiadol oherwydd nad ydynt yn gwybod digon am fanteision yr undeb** |
| **Dylai Llywodraeth y DU dreulio mwy o amser yn egluro manteision yr undeb** | Vs | Dylai llywodraeth y DU dreulio mwy o amser yn gwrando pan fydd pobl yn dweud bod problemau gyda'r undeb |

| | | |
|---|---|---|
| Dylai Llywodraeth y DU ganiatáu refferenda ar newid cyfansoddiadol pryd bynnag y mae rhanbarthau neu genhedloedd penodol eisiau eu cynnal | Vs | **Ni ddylai Llywodraeth y DU ganiatáu refferenda sy'n bygwth chwalu'r wladwriaeth** |
| **Dylai Llywodraeth y DU wario mwy o arian yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon i dynnu sylw at fanteision yr undeb** | Vs | Dylai Llywodraeth y DU dargedu gwariant ar sail angen economaidd yn hytrach na blaenoriaethau gwleidyddol |

Mae'r cwestiynau sy'n sail i'r raddfa wedi'u rhestru ym Mlwch 3.1, gyda'r opsiwn mewn ffont trwm yn cyfateb i'r safle unoliaetholdeb gyhyrog. Rydym yn ail-godio'r ymatebion i'w rhedeg fel plot, gan newid cyfeiriad rhai cwestiynau fel bod niferoedd uwch ym mhob achos yn awgrymu mwy o gefnogaeth i unoliaetholdeb gyhyrol. Mae canlyniad ein harolwg ar gyfer 2023 wedi'u nodi yn Ffigur 3.2. Er mwyn ei gwneud yn haws eu dehongli ar draws y wladwriaeth, rydym wedi grwpio pleidiau gweddol debyg at ei gilydd er ein bod yn nodi bod hyn yn amlwg yn golygu cyfuno elfennau sy'n dra gwahanol. Wrth gymharu â data 2021, rydym yn gweld bod agweddau ar draws y pedair etholaeth wedi dod yn fwy cyson fel rhan o'r hyn sydd yn gyffredinol yn symudiad i ffwrdd oddi wrth unoliaetholdeb gyhyrog. Ond fel sy'n amlwg, mae gwahaniaethau sylweddol o hyd ar draws *gwahanol* bleidiau gwleidyddol ac *o fewn* yr un blaid mewn gwahanol rannau o'r wladwriaeth. Yn fwyaf amlwg, mae Ceidwadwyr Cymru a Cheidwadwyr yr Alban yn fwy tebygol o arddel safbwyntiau unoliaetholdeb gyhyrog na'u cymheiriaid yn Lloegr – yn wir mae barn Ceidwadwyr yr Alban ar yr undeb yn nes at farn cefnogwyr y DUP nag at farn Ceidwadwyr Lloegr. Mae Llafur yr Alban a Democratiaid Rhyddfrydol yr Alban hefyd yn fwy cyhyrog yn eu hagwedd at yr undeb nag aelodau eraill eu plaid ar draws gweddill Prydain.

Ffigur 3.2 Unoliaetholdeb gyhyrog, yn ôl pleidlais 2019





Mae gwahaniaethau rhwng ac o fewn y pleidiau hefyd yn dod i'r amlwg pan fyddwn yn dadansoddi ymatebion i gwestiwn arolwg sy'n gofyn i'r ymatebwyr faint o wledydd sydd yn y DU gan ddefnyddio'r opsiynau ymateb canlynol: dim ond un genedl Brydeinig; dim ond y gwledydd is-

wladwriaethol; neu'r genedl Brydeinig a'r gwledydd is-wladwriaethol? (Roedd opsiwn 'ddim yn gwybod' wedi'i gynnwys hefyd.) Mwyafrif cymharol yr ymatebion yn y pedair tiriogaeth yw bod cenedl Brydeinig a chenhedloedd is-wladwriaethol (er bod lleiafrifoedd mawr yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn dewis dim ond yr opsiwn cenedl is-wladwriaethol.)

Ond pan fyddwn yn canolbwyntio ar yr ymateb 'un genedl Brydeinig yn unig' yn ôl cefnogaeth plaid (eto gan ddefnyddio pleidlais 2019 fel canllaw) rydym yn gweld rhai gwahaniaethau trawiadol (Tabl 3.1). Mae cefnogwyr y Ceidwadwyr yn llawer mwy tebygol o gredu hyn na chefnogwyr y Blaid Lafur, ond yn achos Ceidwadwyr yn yr Alban, mae eu barn yn nes at farn cefnogwyr y DUP na'u cymheiriaid Toriaidd yn Lloegr (ar gyfer data cymharol 2021 gweler Henderson ac Wyn Jones 2023: 34; a Henderson ac Wyn Jones 2023). Yn achos cefnogwyr y Blaid Lafur, ei chefnogwyr yng Nghymru sydd leiaf tebygol o gredu mai dim ond un genedl Brydeinig sydd. Yn gryno, rydym yn wynebu syniadau gwahanol am yr hyn (os o gwbl) mae angen ei wneud i ddiwygio'r wladwriaeth, ond – nid yn ddigyswllt – gyda gwahaniaethau barn sylfaenol am natur y wladwriaeth rydym yn byw ynddi, gyda'r gwahaniaethau hyn nid yn unig yn cael eu hamlygu ar draws y pleidiau ond hefyd yn bodoli o fewn y pleidiau llywodraethu a'r pleidiau a allai fod yn llywodraethu yn y dyfodol.

Ffigur 3.3 Sawl gwlad a ble maen nhw?




*Cwestiwn: Pa un o'r canlynol sydd agosaf at eich barn chi: Dim ond un genedl sydd yn y DU, y genedl Brydeinig; Nid oes cenedl Brydeinig, dim ond cenhedloedd ar wahân (ee Cymru) mewn gwahanol rannau o'r wladwriaeth; Mae yna genedl Brydeinig yn ogystal â chenhedloedd eraill mewn gwahanol rannau o'r DU; Ddim yn gwybod.*

Tabl 3.1 Dim ond un genedl Brydeinig yn ôl cefnogaeth plaid

| | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|
| Ceid/DUP | 30 | 41 | 38 | 48 |
| Llaf/DUP | 18 | 17 | 12 | 5 |


Dylid darllen y canlyniadau ar draws y rhesi a'r colofnau. Felly, mae 30% o Geidwadwyr Lloegr yn credu mai dim ond un genedl sydd, sef y genedl Brydeinig.

## 3.3 Ailgyflwyno Cwestiwn Lloegr?

Yn adran 3.1 fe wnaethom dynnu sylw at fodolaeth ymdeimlad o anniddigrwydd tiriogaethol a oedd yn canolbwyntio ar annhegwch canfyddedig o ran sut mae adnoddau'n cael eu dosbarthu ar draws y wladwriaeth. Daeth i'r amlwg, yn yr achos hwnnw, fod yr ymdeimlad o anniddigrwydd mewn gwirionedd yn is yn Lloegr nag yn rhannau eraill y wladwriaeth. Roedd hefyd yn is ymysg y rheini a oedd yn arddel hunaniaeth Seisnig yn Lloegr nag ymysg y rheini a oedd yn arddel hunaniaeth yr is-wladwriaethau eraill mewn rhannau eraill o'r wladwriaeth. Eto i gyd, mae ymdeimlad hirsefydlog bod gan bobl yn Lloegr reswm i fod – neu y gallent fod – yn arbennig o flin am effaith y trefniadau anghymesur presennol ar gyfer datganoli. Yn y 1970au, crisialwyd hyn drwy 'Gwestiwn Gorllewin Lothian': sut gallai fod yn iawn y byddai ASau nad ydynt yn aelodau yn Lloegr yn dal i gael pleidleisio ar ddeddfwriaeth a oedd ond yn berthnasol yn Lloegr, ond ar ôl datganoli na fyddai aelodau sy'n cynrychioli etholaethau yn Lloegr yn cael pleidleisio ar faterion a oedd wedi'u datganoli i'r Alban, i Gymru ac i Ogledd Iwerddon?

Yn 2011, argymhellodd Comisiwn McKay y dylid cyflwyno math o Bleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr (EVEL), nid yn unig fel ffordd o ateb 'Cwestiwn Gorllewin Lothian', ond hefyd er mwyn mynd i'r afael â'r hyn yr oedd yn ei ystyried yn 'Gwestiwn Lloegr' ehangach. Hynny yw, sut y gellid rhoi llais i Loegr (fel Lloegr) mewn cyd-destun lle'r oedd datganoli wedi rhoi ffurf a llais i gymunedau gwleidyddol yn rhannau eraill y wladwriaeth (Comisiwn McKay 2011)? Fel y nodwyd yn Adran 2.1.1 uchod, cafodd math minimalaidd o Bleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr ei gyflwyno yn 2015 cyn cael ei ddiddymu'n dawel yn 2021. Yn y cyfamser, nid yn unig y methodd y weithdrefn Pleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr â chael *unrhyw* effaith ddeddfwriaethol sylweddol; mae tystiolaeth o waith arolwg blaenorol yn awgrymu mai dim ond lleiafrif bach iawn o'r etholwyr a sylwodd hyd yn oed ar ei bodolaeth. Ac eto, nid yw hyn o reidrwydd yn golygu y gellir neu y dylid anwybyddu cwestiwn Lloegr – fel y mae'r ymatebion i'n harolwg yn 2023 yn ei wneud yn glir.

**Ffigur 3.4 Pleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr ac effaith fframio**




Cwestiwn: Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae'r syniadau canlynol i newid y ffordd caiff Lloegr ei llywodraethu wedi cael eu cynnig. Nodwch i ba raddau, os o gwbl, ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â phob syniad: [...] Newid y rheolau yn senedd y DU fel mai dim ond ASau Lloegr sy'n cael pleidleisio ar gyfreithiau a fyddai ond yn berthnasol yn Lloegr (a elwir weithiau'n Bleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr). Cytuno'n gryf; Tueddu i gytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Tueddu i anghytuno; Anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod. Gan feddwl am [x], i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Dylid atal ASau [x] rhag pleidleisio ar ddeddfau sydd ond yn berthnasol i Loegr. Cytuno'n gryf; Tueddu i gytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Tueddu i anghytuno; Anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod.

Gadewch i ni ddychwelyd yn gyntaf at Bleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr (Ffigur 3.4). Mae sawl ffordd o archwilio agweddau ar y mater hwn. Rydym wedi gofyn am hyn yng nghyd-destun llywodraethu yn Lloegr: ai dim ond ASau Lloegr ddylai gael pleidleisio ar ddeddfwriaeth sydd ond yn berthnasol yn Lloegr? Ond rydym hefyd wedi gofyn o ran *eithrio* ASau o rannau eraill o'r DU. Rydym yn cymharu'r ymatebion yn Ffigur 3.4. Y peth cyntaf i'w nodi, sut bynnag caiff y cwestiwn ei fframio, yw bod llawer iawn o gefnogaeth i Bleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr – yn enwedig o ystyried bod yr ymatebion 'ddim yn gwybod' wedi cael eu cynnwys yn y cyfansymiau cyffredinol. Mae'r gefnogaeth fwyaf i'w gweld yn Lloegr ac, yn drawiadol, mae'n cynyddu ymhellach wrth fframio Pleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr drwy eithrio eraill – ac yn enwedig wrth sôn am yr Alban.

Ond yn groes i'r graen i rai, siŵr o fod, rydym hefyd yn canfod – y tu allan i Loegr – bod pob etholaeth yn ymddangos yn fwyaf cefnogol i eithrio ASau eu tiriogaeth nhw eu *hunain* rhag deddfu ar faterion sy'n ymwneud â Lloegr. Felly, mae'r gefnogaeth i Bleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr yng Nghymru ar ei huchaf pan gaiff ei fframio fel un sy'n eithrio ASau Cymru, ar ei huchaf yn yr Alban pan gaiff ei fframio fel un sy'n eithrio ASau yr Alban, ac yn y blaen. Fodd bynnag, mae hi'n bwysig nodi bod rhywfaint o'r brwdfrydedd hwn yn cael ei yrru gan fylchau mawr yn ymatebion gwahanol grwpiau hunaniaeth genedlaethol.

Yn Lloegr, mae bylchau mawr rhwng grwpiau hunaniaeth, gyda'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Seisnig yn gyson yn fwy cefnogol o eithrio ASau yr Alban (72%), Cymru (68%) neu Ogledd Iwerddon (67%), gyda sgoriau'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig 15 pwynt yn is fel arfer. Yn yr Alban, i'r gwrthwyneb, mae'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yn fwyaf cefnogol o eithrio ASau yr Alban. Felly, mae 52% o'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Albanaidd ond 60% o'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yn yr Alban yn cefnogi eithrio ASau yr Alban. Fodd bynnag, wrth holi ein hymatebwyr yn yr Alban am eithrio ASau Cymru, gostyngodd y gefnogaeth ymysg y rheini sy'n arddel hunaniaeth Albanaidd i 43%, ac mae'r gefnogaeth ymysg y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yn disgyn i 46%. Yng Nghymru, mae bylchau bach ar draws y grwpiau hunaniaeth, a bron dim pan fyddwn yn sôn am eithrio ASau Cymru (y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig 47%, y rheini sy'n arddel hunaniaeth Gymreig 46%). Yng Ngogledd Iwerddon, nid ydym yn gweld unrhyw fwlch bron yn yr ymatebion yn ôl hunaniaeth genedlaethol wrth ofyn am eithrio ASau Cymru a'r Alban, ond mae bwlch o fwy na 15 pwynt yn agor pan fyddwn yn gofyn am eithrio ASau Gogledd Iwerddon, gyda'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Wyddelig Gogledd Iwerddon yn cefnogi hyn fwyaf (59%). Yn gryno, rydym yn wynebu nid yn unig effeithiau fframio (gan gynnwys dim ond Lloegr vs eithrio eraill), ond hefyd effeithiau hunaniaeth diriogaethol a chenedlaethol hefyd.


Roedd yr arbrawf Pleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr rhwng 2015 a 2021 yn fethiant: ar ôl ei gyflwyno, prin oedd y rheini a oedd yn gwybod ei fod yn bodoli, a doedd prin dim sôn na sylw pan ddaeth i ben. Er hynny, mae hi'n werth cofio bod y model Pleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr a weithredwyd yn ystod y cyfnod hwn (mae sawl model posibl) wedi cael ei ddylunio'n fwriadol i fod mor anymwthiol â phosibl. O'r herwydd, nid oedd unrhyw obaith gwirioneddol y byddai'n creu fforwm lle gallai llais gwleidyddol Lloegr ddod i'r amlwg, er mai dyma oedd un o brif obeithion Comisiwn McKay pan argymhellodd ei gyflwyno.

Ac eto, fel sy'n amlwg, mae'r awydd i ddiwygio – yn enwedig ymysg etholwyr Lloegr – yn dal yn gryf. I'r rheini sydd eisiau creu setliad hirdymor ar gyfer cyfansoddiad tiriogaethol y DU drwy ddatganoli wedi'i wreiddio, mae gwrthod ymgysylltu â'r teimlad hwn yn ymddangos yn wirion. Yn enwedig o ystyried y dystiolaeth a gyflwynir yma bod fframio Pleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr mewn cyd-destun o eithrio – hynny yw, fframio a allai fod yn fwy cynhennus – yn arwain at lefelau uwch fyth o gefnogaeth gyhoeddus. Yn y cyfamser, dim ots pa mor flin yw gwleidyddion etholedig o'r tiriogaethau datganoledig am bosibilrwydd Pleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr, nid yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw yn y mannau hynny o'r un farn â nhw, ac yn enwedig y rheini yn eu mysg (sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig) sy'n tueddu i fod yn fwyaf ymroddedig i'r undeb.

Y tu hwnt i Bleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr – ac yn enwedig yn sgil y ffordd y chwaraeodd dylanwad posibl yr SNP ar lywodraeth y DU ran ganolog yn ymgyrch y Blaid Geidwadol yn etholiad cyffredinol y DU yn 2015 (Henderson ac Wyn Jones 2021: 1-34) – rydym wedi gofyn am farn

ynghylch a ddylid eithrio ASau nad ydynt yn aelodau yn Lloegr o rolau yn llywodraeth y DU. Dim ond ar y rheini sy'n cytuno â'r cynnig mae Ffigur 3.5 yn canolbwyntio. Fel sy'n amlwg, mae'r gefnogaeth gyffredinol yn gymharol isel – hyd yn oed os yw ddwywaith yn uwch yn Lloegr nag yng Nghymru a'r Alban (gyda Gogledd Iwerddon yn y canol)


Ffigur 3.5 Ni ddylai ASau o'r tiriogaethau datganoledig fod yn aelodau o Lywodraeth y DU? (Cytuno'n gryf a tueddu i gytuno wedi'u cyfuno)





Cwestiwn: Gan feddwl am [x], i ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol? Ni ddylai unrhyw AS [X] fyth fod yn aelod o lywodraeth y DU. Cytuno'n gryf; Tueddu i gytuno; Ddim yn cytuno nac yn anghytuno; Tueddu i anghytuno; Anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod.

Fodd bynnag, wrth ddadgyfuno ymatebion yn ôl hunaniaeth genedlaethol, gwelwn fod y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yn ogystal â'r rheini sy'n arddel hunaniaeth is-wladwriaethol yng Nghymru, yr Alban ac (i raddau llai) Gogledd Iwerddon yn dal yn llugoer am bosibilrwydd eithrio ASau nad ydynt yn aelodau yn Lloegr o swyddi yn llywodraeth y DU, er hynny mae llawer iawn o gefnogaeth i hyn ymhlith y rheini sy'n arddel hunaniaeth Seisnig (Ffigur 3.6).

Ffigur 3.6 Ni ddylai ASau o'r tiriogaethau datganoledig fod yn aelodau o Lywodraeth y DU yn ôl hunaniaeth genedlaethol




Mae'r canfyddiad hwn yn tanlinellu dau bwynt dadansoddol – a dwy her yng nghyd-destun yr adroddiad presennol. Mae'r cyntaf yn thema allweddol yn llawer o'n gwaith blaenorol, sef bod hunaniaeth genedlaethol Seisnig yn wahanol i'r hunaniaethau cenedlaethol is-wladwriaethol eraill a geir ar draws gweddill y wladwriaeth (boed hynny'n Gymru, yr Alban, Iwerddon neu Ogledd Iwerddon), sy'n cyd-fynd â syniadau gwahanol iawn am y DU. Yn ail – a gwneud y pwynt mor amlwg â phosibl – i gyfran fawr o'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Seisnig, Lloegr yw gwladwriaeth y DU ac ar gyfer Lloegr mae'r wladwriaeth honno.

# 4. Casgliad

Yn ein Cyflwyniad, fe wnaethom bwysleisio rhai o gyfyngiadau cynhenid arolygu agweddau'r cyhoedd at wahanol fathau o ddyfodol cyfansoddiadol posibl, ac nid yw rhai ohonynt o leiaf wedi bod yn destun dadleuon cyhoeddus helaeth ac mae eu ffurf yn dal i fod braidd yn aneglur. Mae hefyd yn wir y gall dadleuon am gynigion o'r fath gael eu dosbarthu'n anwastad ar draws y DU, gydag ymatebwyr yn y tiriogaethau datganoledig fel arfer yn fwy tebygol o fod wedi gweld adroddiadau yn y cyfryngau am faterion o'r fath nag yn Lloegr. Un canlyniad yw ein bod wedi gorfod mynd i'r afael â rhai materion yn *anuniongyrchol* (oherwydd, pan fydd union fanylion unrhyw gynllun posibl yn aneglur, mae'n gwneud synnwyr canolbwyntio ar egwyddorion cyntaf a materion sy'n siŵr o godi yn y broses o ddylunio cyfansoddiadol) a/neu'n *gronnus* (gan ganolbwyntio ar agweddau at elfennau o'r hyn a allai ddod yn rhan o broses gyfansoddiadol fwy). Ynghlwm wrth hynny, mae llawer iawn o'r mesuriadau o'r arolwg rydym wedi sôn amdanynt yma hefyd yn rhai newydd sbon – cwestiynau pwrpasol sydd wedi cael eu llunio gan feddwl am ystyriaethau'r Comisiwn. Mae hyn yn cyd-fynd yn llwyr ag ethos arolygon Dyfodol Lloegr a Chyflwr yr Undeb, sef y dylai cwestiynau'r arolwg adlewyrchu dadleuon cyfansoddiadol y dydd ac y dylid eu hailadrodd dros amser. Yn achos ein cwestiynau diweddaraf, mae'n amlwg nad oes cyfres amser o ddata i'w hystyried. Er ein bod wedi ceisio gwarchod rhag hyn, drwy integreiddio'r dadansoddiad o gwestiynau â hanes hirach, mae'n wir o hyd y gallai geiriad neu fframio amgen fod wedi arwain at ymatebion gwahanol. Wedi dweud hynny, mae sawl Casgliad y gellir eu llunio gyda hyder cymharol o'n dadansoddiad.

Yn gyntaf, ac nid yw'n syndod i unrhyw un sydd hyd yn oed wedi cymryd diddordeb arwynebol mewn agweddau at yr undeb, rydym wedi cadarnhau unwaith eto bod agweddau'r cyhoedd wedi'u pegynu'n ddwfn, gan amrywio yn ôl – inter alia – tiriogaeth yn ogystal â phatrymau hunaniaeth genedlaethol a chefnogaeth bleidiol. Nid yn unig hynny, ond oherwydd ein dull '360 gradd', rydym yn gweld yn glir sut mae rhai o'r newidynnau hyn yn cyd-fynd â'r dewisiadau sydd orau gan bobl o ran yr undeb mewn ffyrdd gwahanol ac anghyson hyd yn oed mewn gwahanol rannau o'r wladwriaeth. Mae hyn yn wir am hunaniaeth Brydeinig, er enghraifft – gyda'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig mewn gwahanol rannau o'r wladwriaeth yn dal safbwyntiau croes ar adegau – ond ceir gwahaniaethau mawr hefyd rhwng cefnogwyr yr un pleidiau gwleidyddol mewn gwahanol rannau o'r wladwriaeth, gyda'r olaf yn codi materion a allai fod yn gymhleth ar gyfer actorion gwleidyddol allweddol.

Y tu hwnt i hynny, gallwn hefyd ddweud y canlynol am y tri opsiwn a drafodwyd ym Mhennod 2. Gwelsom fod llawer o dir cyffredin yn llawer o'r ymatebion i'n cwestiynau a oedd yn edrych ar agweddau'r cyhoedd at **ddatganoli wedi'i wreiddio**, gyda'r tir cyffredin hwnnw'n amlwg yn ddefnyddiol o safbwynt y rheini sy'n ffafrio'r dull hwn. Er enghraifft, o ran datrys anghydfodau,

cynrychiolaeth diriogaethol yn Nhŷ'r Arglwyddi, mynd y tu hwnt i Sewel, diogelu pwerau ac uchelfreintiau y deddfwrfeydd datganoledig, a phosibilrwydd cyfansoddiad ysgrifenedig, mae agweddau ar draws y wladwriaeth yn cyd-fynd mewn ffyrdd sy'n gyson â'r agenda datganoli wedi'i wreiddio hon. Gellid hefyd ystyried bod y gefnogaeth eang i Bleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr yn ddefnyddiol os oes parodrwydd i roi sylw i'r rhybuddion a nodir ym Mhennod 3. Nid yw hyn yn golygu na fydd opsiynau o'r fath yn wynebu rhwystrau eraill, ond mae ein tystiolaeth yn awgrymu nad ydynt yn debygol o wynebu gwrthwynebiad cyhoeddus eang.

Fodd bynnag, mae'r gefnogaeth barhaus i sofraniaeth seneddol yn llai syml yn y cyd-destun hwn, yn enwedig yn Lloegr (gan dybio o reidrwydd yma ei bod yn rhaid i ddatganoli wedi'i wreiddio ystyrlon olygu herio'r athrawiaeth honno.) Mae'r flaenoriaeth isel a roddir i gwestiynau tiriogaethol-cyfansoddiadol y tu hwnt i diriogaeth yr unigolyn yn fater posibl arall gan ei fod yn ei gwneud yn anodd rhagweld sut y gellir datblygu'r symbyliad gwleidyddol a'r egni angenrheidiol i wneud diwygiadau difrifol i'r wladwriaeth ganolog. Yn sicr, i'r graddau y mae blaenoriaethau'r cyhoedd yn bwysig, mae cysgod perthynas y DU â'r UE yn dal yn amlwg iawn. Gall y gwahanol agweddau at unoliaetholdeb gyhyrol fod yn bwysig hefyd. O gofio mai unoliaetholdeb gyhyrog mewn sawl ffordd yw gwrthgyferbyniad y dull datganoli wedi'i wreiddio, mae'n ymddangos y bydd Ceidwadwyr yr Alban a Cheidwadwyr Cymru yn dechrau o safle o wrthwynebu hyd yn oed os yw eu cymheiriaid yn Lloegr o bosibl yn fwy hydrin.

Mae agweddau'r cyhoedd at **ffederaliaeth** yn fwy heriol i'r rheini a fyddai'n dadlau o blaid datblygiad o'r fath. Mae'r gefnogaeth eang i gyfansoddiad ysgrifenedig yn sicr yn gadarnhaol, yn yr un modd – yn fwy petrus – â'r gymeradwyaeth i fwy o gydweithredu rhwng gwahanol lefelau o lywodraeth (ac **nid** San Steffan a Whitehall yn sathru pethau dan draed.) Ond mae agweddau at lywodraethu Lloegr – hyn yn fwyaf amlwg yn Lloegr ei hun, ond hefyd ar draws y wladwriaeth – yn cyflwyno heriau sylweddol. Yn amlwg, prin iawn yw'r awydd i rannu Lloegr yn rhanbarthau o faint yr Alban, datblygiad sy'n cael ei ystyried gan y rhan fwyaf o gefnogwyr ffederaliaeth fel rhagofyniad i lwyddo. Mae hi'n amlwg hefyd bod rhan o boblogaeth Lloegr o'r farn bod y wladwriaeth Brydeinig, i bob pwrpas, yn eiddo i Loegr – sy'n golygu ei bod yn anodd rhagweld sut y gellid osgoi llawer iawn o wrthwynebiad i unrhyw ymgais i ddatgysylltu swyddogaethau Prydeinig oddi wrth swyddogaethau Lloegr. Ar ben hynny, er bod tystiolaeth o gefnogaeth i sofraniaeth a rennir yn yr Alban, mae'r gefnogaeth honno wedi'i chyfyngu i raddau helaeth i'r rhan honno o'r wladwriaeth. Yn olaf, o ystyried faint o amser ac ymdrech gwleidyddol fyddai eu hangen i ffederaleiddio'r DU, mae'r ffaith bod etholwyr yn rhoi blaenoriaeth mor isel i ddelio â'r heriau cyfansoddiadol sy'n wynebu rhannau eraill o'r wladwriaeth yn dal yn rhwystr mawr arall i'r math hwn o ddiwygio.

Gan droi at **annibyniaeth** (neu ailuno yn achos Gogledd Iwerddon) rydym unwaith eto wedi nodi i ba raddau mae agweddau at yr undeb yn amhendant. O ystyried mai sefyllfa gyfunol pleidleiswyr

Lloegr, yr Alban a Chymru yw y dylai Gogledd Iwerddon ddod yn rhan o Iwerddon unedig, mae'n amlwg mai cyfyngedig yw'r gefnogaeth ar gyfer uniondeb tiriogaethol y wladwriaeth fel y'i ffurfir ar hyn o bryd. Beth bynnag fo'u barn am bosibilrwydd chwalu Prydain, mae'n amlwg nad oes ofn ar lawer o chwalu'r DU. Gyda'i gilydd, mae pleidleiswyr yr Alban wedi'u rhannu'n gyfartal o blaid ac yn erbyn eu hannibyniaeth eu hunain ac mae pleidleiswyr Gogledd Iwerddon wedi'u rhannu'n gyfartal ar y cwestiwn o ailuno. Mae hyn yn sicr yn gyflwr sy'n agored i bwysau allgyrchol mawr. Gellid dadlau hefyd bod y ffaith bod pleidleiswyr yng ngwahanol rannau'r wladwriaeth yn llawer mwy tebygol o flaenoriaethu dyfodol eu tiriogaeth eu hunain na'r heriau sy'n wynebu rhannau eraill, yn golygu bod newidiadau o amgylch yr ymylon – hyd at ac yn cynnwys annibyniaeth ac ailuno – yn dal yn bosibilrwydd llawer mwy realistig na newidiadau cyfanwerthol wrth galon y wladwriaeth.

Wedi dweud hynny, mae hefyd yn wir nad oes gan unrhyw ran o'r wladwriaeth fwyafrif o drigolion y diriogaeth honno sydd o blaid annibyniaeth/o blaid ailuno. Ond fel y gwelsom, Cymru yw'r rhan o'r wladwriaeth sy'n fwyaf cefnogol i gynnal undeb gyda rhai o'i unedau cyfansoddol presennol, os nad o reidrwydd pob un ohonynt. Er y gallai datblygiadau mewn mannau eraill ddod â'r undeb i ben eto, mae ein harolwg o agweddau'r cyhoedd yn awgrymu nad yw'r Cymry yn debygol o ysgogi datblygiad o'r fath.

# Llyfryddiaeth


BBC (2014) 'Labour warns of 'two classes of MP' if England-only votes go ahead', BBC politics, 20 Medi 2014 (ar gael yn https://www.bbc.co.uk/news/uk-politics-29292719)

Booth, P (2015) *Federal Britain: The case for decentralisation*, Institute of Economic Affairs (ar gael yn https://iea.org.uk/wp-content/uploads/2016/07/Booth-Federal-Britain-Interactive.pdf)

Daily Record (2014), 'The Vow', *Daily Record*, 16 Medi 2014.

Gething V (2022) 'Datganiad ysgrifenedig: Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU', 13 Ebrill 2022 (ar gael yn https://www.llyw.cymru/datganiad-ysgrifenedig-cronfa-ffyniant-gyffredin-y-du)

Griffin, SP (2021) *Remaking the British state: For the many, not the few* (ar gael yn https://redpapercollective.net/?p=22)

Henderson A (2020) 'Labour must be careful in chasing the unionist vote', The Times, 26 Mehefin 2020 (ar gael yn https://thetimes.co.uk/article/labour-must-be-careful-in-chasing-the-unionist-vote-523t6gjgv)

Henderson A (2021) Oral evidence House of Commons Procedure Committee, Question 5, 3 Mawrth 2021 (ar gael yn https://committees.parliament.uk/oralevidence/1775/html/)

Henderson A ac Wyn Jones R (2021a) *Englishness: The political force transforming Britain*, Oxford University Press

Henderson A ac Wyn Jones R (2021b) 'Unions of the mind: The United Kingdom as a subjective state', *Comparative European Politics*, 19: 164–187

Henderson A ac Wyn Jones R (2022) 'The Conservative party's national question', gwefan UK in a Changing Europe, 15 Medi 2023. https://ukandeu.ac.uk/the-conservative- partys-national-question

House of Commons Library (2021), *Transport funding for Wales and HS2*, House of Commons Research Briefing 22 Hydref 2021 (ar gael yn https://commonslibrary.parliament.uk/research-briefings/cdp-2021-0168/)

Jeffery C, Wyn Jones R, Henderson A, Scully R a Lodge G (2014) *Taking England Seriously: The new English politics*, Y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Scottish Centre on Constitutional Change

Keble, J (1997) *Federal Britain: A History*, Routledge

Lamont J (2020) 'Brexit: Internal market bill will strengthen the Union, not weaken it' *The Times,* 16 Medi 2020

Morgan K ac Wyn Jones R (2023) 'Brexit and the death of devolution', *Political Quarterly* (https://doi.org/10.1111/1467-923X.13293)

Roberts O (2012) *Wales and the reform of the House of the Lords* (Papur Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru) (ar gael yn https://senedd.wales/media/lhehsdop/12-017-english.pdf)

Y Comisiwn ar Ddyfodol y DU (2022) *A New Britain: Renewing our democracy and building our economy. The report of the Commission on the UK's Future*, Y Blaid Lafur (https://labour.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/Commission-on-the-UKs-Future.pdf)

Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru (2022), *Adroddiad interim gan Y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru* (ar gael yn https://ehq-production-europe.s3.eu-west-1.amazonaws.com/ce97da34eab56504ebff64dbbd6c01dfde8a184c/original/1680606304/9462cfbbba575b40113dfd8f3ffe4943_comisiwn-annibynnol-ar-ddyfodol-cyfansoddiadol-cymru-adroddiad-interim-rhagfyr-2022.pdf?X-Amz-Algorithm=AWS4-HMAC-SHA256&X-Amz-Credential=AKIA4KKNQAKICO37GBEP%2F20231213%2Feu-west-1%2Fs3%2Faws4_request&X-Amz-Date=20231213T134820Z&X-Amz-Expires=300&X-Amz-SignedHeaders=host&X-Amz-Signature=c61b7b21521b9ee4f9e146eccb260217629a18ad0bf9e8f0a83bf0e04cfe6442)

Llywodraeth Cymru (2021) *Diwygio ein Hundeb. Ail Argraffiad: Mehefin 2021* (ar gael yn https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2021-06/diwygio-ein-hundeb-cydlywodraethu-yn-y-du-mehefin-2021-0.pdf

Wyn Jones R, Jeffery C, Lodge G, Scully R, Gottfried G, Henderson A a Wincott D (2013) *England and its two unions: The anatomy of a nation and its discontents*, IPPR. https://www.ippr.org/publications/england-and-its-two-unions-the-anatomy-of- a-nation-and-its-discontents

Wyn Jones R, Lodge G, Henderson A a Wincott D (2012) *The dog that finally barked: England as an emerging political community*, IPPR. https://www.ippr.org/publications/ the-dog-that-finally-barked-england-as-an-emerging-political-community

# Atodiad 1: Modelu Ystadegol

Er ein bod wedi canolbwyntio yn ein hadroddiad ar sut mae agweddau, disgwyliadau a hoff ddewisiadau'n amrywio ar draws pedair tiriogaeth y DU, ar draws hunaniaethau cenedlaethol a chefnogaeth bleidiol, mae yna ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiad gwleidyddol. I weld a yw'r ffactorau hyn yn dal yn berthnasol hyd yn oed pan fyddwn yn rheoli newidynnau eraill, ond hefyd i weld a yw ffactorau demograffig neu economaidd-gymdeithasol eraill yn sylweddol gysylltiedig â'r themâu yn ein hadroddiad, rydym wedi llunio cyfres o fodelau. Ar gyfer y rhain, rydym wedi ailgodio newidynnau yn y set ddata, wedi creu nifer o fynegeion ac wedi rhedeg naill ai modelau atchweliad llinol neu logistaidd yn dibynnu ar p'un a yw'r newidynnau o ddiddordeb yn ysbeidiol neu'n ddeuaidd eu natur. Mae'r atodiad ystadegol hwn yn cynnwys gwybodaeth am yr ail-godio hwn, ac yn crynhoi canlyniadau'r modelau hyn.

## Newidynnau codio

### Rhagfynegyddion newidynnau

| | Newidyn gwreiddiol | Newidyn wedi'i ailgodio |
|---|---|---|
| Oedran | Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi eu hoedran | Mae'n mynd o 0, yr ymatebydd ieuengaf (18), i 1, yr ymatebydd hynaf |
| Rhywedd | | Menyw (1, 0 fel arall) |
| Dosbarth | Mae gan y cwestiwn gwreiddiol chwe chategori A, B, C1, C2, D, E wedi'u cyfrifo o godau YouGov | ABC1 (1, 0 fel arall) |
| Addysg | Mae'r mesur gwreiddiol yn cynnwys 18 cod addysg | Gradd Prifysgol (1, 0 fel arall) |
| Man geni | Mae'r cwestiwn yn gofyn ble yn y DU y cafodd ei eni, neu os cafodd ei eni y tu allan i'r DU | Tri newidyn newydd<br>Ganed yn y diriogaeth (1, 0 fel arall)<br>Ganed yng ngweddill y DU (1, 0 fel arall)<br>Ganed y tu allan i'r DU (1, 0 fel arall) |
| Hunaniaeth genedlaethol | Roeddem yn dibynnu ar y cwestiwn 'pe bai'n rhaid i chi ddewis' | Dau newidyn newydd<br>Prydeinig (1, 0 fel arall)<br>Hunaniaeth is-wladwriaethol berthnasol (1, 0 fel arall)<br>Yng Ngogledd Iwerddon, dyma'r hunaniaeth 'Gwyddelig Gogledd Iwerddon' ond rydym wedi ychwanegu newidyn Gwyddelig at yr atchweliadau (1, 0 fel arall) |
| Iaith | Yng Nghymru, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn siarad Cymraeg. Yn Lloegr, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oeddent yn gallu siarad iaith ar wahân i'r Saesneg | Siaradwr Cymraeg (1, 0 fel arall)<br>Iaith arall (1, 0 fel arall) |
| Pleidlais EthCyffDU yn y gorffennol | Roeddem wedi defnyddio pleidleisio yn etholiad 2019 gan fod mwy o ymatebion i hyn na'r bwriad i bleidleisio neu gwestiynau nodi plaid | Ar gyfer samplau Prydain Fawr<br>Ceidwadwyr19 (1, 0 fel arall)<br>Llafur19 (1, 0 fel arall)<br>Democratiaid Rhyddfrydol19 (1, 0 fel arall)<br>Ac yn yr Alban:<br>SNP19 (1, 0 fel arall)<br>Yng Ngogledd Iwerddon<br>DUP19 (1, 0 fel arall) |

| | | |
|---|---|---|
| | | SF19 (1, 0 fel arall)<br>Alliance19 (1, 0 fel arall) |
| Pleidlais Brexit | | Pleidleisio dros adael (1, 0 fel arall) |

## Mynegeion

| | Newidynnau yn y Mynegai | Wedi'i godio |
|---|---|---|
| Mynegai annibyniaeth | Annibyniaeth yr Alban<br>Annibyniaeth i Gymru<br>Annibyniaeth i Loegr<br>Ailuno Gogledd Iwerddon | niferoedd uwch = mwy o gefnogaeth i annibyniaeth<br>mae'n mynd o 0 i 1 |
| Mynegai diwygio llywodraethu Lloegr | Gweinidog y DU dros Loegr<br>Gweinidog y DU dros ranbarthau Lloegr<br>Senedd i Loegr<br>Dinas-ranbarthau<br>Pleidleisiau Lloegr dros Ddeddfau Lloegr | Niferoedd uwch = mwy o gefnogaeth i ddiwygio<br>Mae'n mynd o 0 i 1 |
| Mynegai ymyriant | Byth yn ymyrryd mewn maes datganoledig<br>Byth yn gwario mewn maes datganoledig<br>Byth yn rhwystro deddfwriaeth ddatganoledig | Niferoedd uwch = byth yn ymyrryd<br>Mae'n mynd o 0 i 1 |
| Cyfran deg | Mae'n defnyddio'r tair tiriogaeth ar wahân i un yr ymatebydd | Niferoedd uwch = mae tiriogaethau eraill yn cael mwy na'u cyfran deg<br>Mae'n mynd o 0 i 1 |
| Mynegai unoliaetholdeb gyhyrol | O 5 eitem unoliaetholdeb gyhyrol | Niferoedd uwch = mwy cyhyrog<br>Mae'n mynd o 0 i 1 |
| Mynegai Eithrio ASau datganoledig o'r llywodraeth | Eithrio ASau yr Alban o'r llywodraeth<br>Eithrio ASau Cymru o'r llywodraeth<br>Eithrio ASau Gogledd Iwerddon o'r llywodraeth | Niferoedd uwch = eithrio<br>Mae'n mynd o 0 i 1 |
| Mynegai Eithrio ASau datganoledig rhag pleidleisio | Eithrio ASau yr Alban rhag pleidleisio ar Loegr<br>Eithrio ASau Cymru rhag pleidleisio ar Loegr<br>Eithrio ASau Gogledd Iwerddon rhag pleidleisio ar Loegr | Niferoedd uwch = eithrio<br>Mae'n mynd o 0 i 1 |

## Newidynnau eraill wedi'u hailgodio

| | Newidynnau | Wedi'i godio |
|---|---|---|
| Cadw Lloegr yn gyfan* | O gwestiwn 2 opsiwn am rannu Lloegr yn unedau neu ei chadw'n gyfan | Cadw'n gyfan (1, 0 fel arall) |
| Unoliaetholdeb amhendant* | O gwestiwn 3 opsiwn am gefnogaeth i'r undeb neu i annibyniaeth | Dyna ni (1, 0 fel arall) |
| Cydweithio* | O gwestiwn 2 opsiwn sy'n canolbwyntio ar ei gyfrifoldebau ei hun yn hytrach na chydweithio | Cydweithio (1, 0 fel arall) |
| Cymrodeddu 4 rhan* | O gwestiwn 3 opsiwn gydag opsiynau cymrodeddu gwahanol (Llywodraeth y DU, 4 tiriogaeth, rhyngwladol) | Mecanwaith cymrodeddu sy'n cynnwys y 4 tiriogaeth (1, 0 fel arall) |
| Sofraniaeth a rennir | Graddfa sy'n mynd o sofraniaeth a rennir i sofraniaeth seneddol | Niferoedd uwch = a rennir<br>Mae'n mynd o 0 i 1 |
| Cyfansoddiad ysgrifenedig | Cytuno â chyfansoddiad ysgrifenedig | |
| Diwygio Tŷ'r Arglwyddi | Cytuno â diwygio Tŷ'r Arglwyddi | |
| Refferendwm i newid datganoli | Cytuno bod angen refferendwm i ddiddymu datganoli | |

| | | |
|---|---|---|
| Un genedl Brydeinig* | O gwestiwn 3 opsiwn am nifer y cenhedloedd Prydeinig | Dim ond un genedl Brydeinig (1, 0 fel arall) |

Mae'r newidynnau sydd wedi'u marcio â seren (*) yn fesurau deuaidd, ac felly mae'r modelau sy'n deillio ohonynt yn atchweliadau logistaidd yn hytrach na rhai llinol.

Yn y tablau ystadegol canlynol, rydym wedi nodi cyfres o ragfynegyddion newidynnau. Rydym wedi ceisio cadw'r rhain yn gyson ar draws y pedair tiriogaeth er mwyn gallu cymharu, gyda thri eithriad. Pan fydd newidyn iaith ar gael, rydym wedi cynnwys hynny. Ar ben hynny, rydym wedi addasu newidynnau pleidleisiau pleidiau i adlewyrchu'r cyd-destun lleol. Felly, er bod gennym newidynnau cod ar gyfer pleidleisio dros y Ceidwadwyr, Llafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn 2019 ar draws pob tiriogaeth ym Mhrydain, rydym wedi ychwanegu pleidlais yr SNP yn yr Alban ac rydym wedi codio cefnogaeth i'r DUP, i Sinn Fein ac i Alliance yng Ngogledd Iwerddon. Ni allwn gynnwys pob plaid yn y modelau oherwydd risgiau o gyflinelledd, felly rydym wedi canolbwyntio ar y pleidiau mwyaf sy'n hwyluso ymdeimlad o'r sbectrwm gwleidyddol llawn. Yn olaf, er ein bod wedi cynnwys mesur o hunaniaeth genedlaethol y wladwriaeth (Prydeinig) a hunaniaeth genedlaethol is-wladwriaethol, yn Iwerddon rydym hefyd wedi cynnwys y label Gwyddelig. Yn yr adroddiad rydym yn defnyddio Gwyddelig Gogledd Iwerddon yn gyson fel bod y berthynas rhwng hunaniaeth is-wladwriaethol ar draws y DU yn weladwy. Mae'n addysgiadol gweld, er bod patrymau hunaniaeth Brydeinig yn aml yn gyffredin ar draws Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, nad yw patrymau hunaniaeth is-wladwriaethol, ac mae rhan o hyn yn deillio o sefyllfa benodol y label hunaniaeth is-wladwriaethol yng Ngogledd Iwerddon. Mewn sawl ffordd, mae'r label 'Gwyddelig' yn gweithredu mewn ffordd sy'n fwy tebyg i hunaniaeth genedlaethol Gymreig ac Albanaidd ac felly rydym wedi'i gynnwys yn y modelau fel rheolaeth ychwanegol.

Mae newidiadau cynnil hefyd i'r cod i adlewyrchu lle mae'r ymatebydd yn byw. Os yw'r newidyn yn cynnwys pob tiriogaeth arall yn y DU (ee ganed y tu allan i'r diriogaeth lle mae'r ymatebydd yn byw, neu'n asesu a yw pob rhan arall o'r DU yn cael mwy na'u cyfran deg o adnoddau), bydd y tiriogaethau unigol dan sylw yn cylchdroi gan ddibynnu ar ble mae'r ymatebydd yn byw. Felly, er enghraifft, os yw'r ymatebwyr yn byw yn Lloegr yna mae pawb arall yng Nghymru a'r Alban a Gogledd Iwerddon; ond os ydynt yn byw yng Nghymru, yna mae pawb arall yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, ac ati.

Er mwyn gallu cymharu, rydym yn archwilio'r canlyniadau mewn clystyrau thematig (datganoli wedi'i wreiddio, ffederaliaeth, annibyniaeth a heriau). Mae'r rhain yn ein galluogi i nodi a yw rhagfynegyddion yn ymddwyn mewn ffyrdd tebyg o fewn thema benodol. Rydym yn dechrau gyda chrynodeb o ganlyniadau'r model ar gyfer pob tiriogaeth ar wahân, ac yna'n gorffen gyda chymhariaeth ar draws y pedair tiriogaeth.

# Modelu cefnogaeth at agweddau cyfansoddiadol

**Lloegr**

| | Rhywedd | Oedran | Dosbarth | Addysg | Man geni | | Hunaniaeth genedlaethol | | Brexit | Iaith arall | Pleidlais EthCyffDU 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Menyw | hŷn | Abc1 | Prif | Lloegr | gDU | Pryd | Lloegr | Gadael | ie | Ceid | Llaf |
| Datganoli wedi'i wreiddio | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai peidio byth ag ymyrryd | + | | - | | + | + | - | - | | | - | |
| Angen reff | - | | | | | | | | | | | |
| Cymrodeddu 4 rhan* | + | | | | | | | | | | - | |
| Diwygio Tŷ'r Arglwyddi | | | - | | | | | - | | | - | |
| Cyfansoddiad ysgrifenedig | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| Ffederaliaeth | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai diwygio llywodraethu Lloegr | | - | | - | | - | | + | | | | |
| Cadw Lloegr yn gyfan* | | | | | | | + | + | | | + | |
| A rennir | + | - | - | | + | | - | - | - | | - | |
| Cydweithio* | | | | | | | | | - | | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| Annibyniaeth | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai annibyniaeth | | - | | | | | - | | | | | + |
| Unoliaetholdeb amhendant* | | | + | | | | - | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Heriau | | | | | | | | | | | |
| Eraill mwy | | + | | | | | | | + | | | |
| Mynegai undeb gyhyrol | - | + | | | | | + | | | - | | - |
| Un genedl Brydeinig* | | + | | - | - | | + | | | | + | |
| Eithrio pleidlais datganoli | | | | | | | | + | + | | + | - |
| Eithrio llyw datganoli | | + | | - | | | | + | + | | + | |

Mae'r arwyddion yn dynodi cyfeiriad cyfernodau sydd yn arwyddocaol yn ystadegol (p<.05). Mae pob model yn defnyddio atchweliad llinellol ac eithrio'r rhai sydd wedi'u marcio â seren

**Yr Alban**

| | Rhywedd | Oedran | Dosbarth | Addysg | Man geni | | Hunaniaeth genedlaethol | | Brexit | Pleidlais EthCyffDU 2019 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Menyw | Hŷn | Abc1 | Prif | Yr Alban | gDU | Pryd | Alban | Gadael | Ceid | Llaf | SNP |
| Datganoli wedi'i wreiddio | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai peidio byth ag ymyrryd | | | | | | | | + | - | - | | + |
| Angen reff i ddiddymu | - | | | | | | | | | - | | |
| Cymrodeddu 4 rhan* | + | | | | | + | | + | | + | | |
| Diwygio Tŷ'r Arglwyddi | | | | | | | - | - | - | | | |
| Cyfansoddiad ysgrifenedig | | | | | | | - | | | - | | |
| | | | | | | | | | | | | |
| Ffederaliaeth | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai diwygio llywodraethu Lloegr | | | | | | | | | | - | | |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cadw Lloegr yn gyfan* | | | | | | | | | | | | |
| A rennir | | | | | | + | | + | - | - | | |
| Cydweithio* | | + | | | | - | | | | | | - |
| | | | | | | | | | | | | |
| Annibyniaeth | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai annibyniaeth | | - | | | | | - | | | - | | + |
| Unoliaetholdeb amhendant* | | | | | | | | | | - | | - |
| | | | | | | | | | | | | |
| Heriau | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai eraill mwy | - | + | | | | | | | | | + | + |
| Mynegai undeb gyhyrol | | | | | + | | + | - | + | + | | |
| Un genedl Brydeinig* | | + | - | - | | | + | | + | | | - |
| Eithrio pleidlais datganoli | | | | | | | | | + | | | - |
| Eithrio llyw datganoli | | + | - | | | | - | - | + | - | - | |

Mae'r arwyddion yn dynodi cyfeiriad cyfernodau sydd yn arwyddocaol yn ystadegol ($p<.05$). Mae pob model yn defnyddio atchweliad llinellol ac eithrio’r rhai sydd wedi’u marcio â seren

**Cymru**

| | Rhywedd | Oedran | Dosbarth | Addysg | Man geni | | Hunaniaeth genedlaethol | | Siaradwr Cymraeg | Brexit | Pleidlais EthCyffDU 2019 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Menyw | Hŷn | Abc1 | Prif | Cymru | gDU | Pryd | Cymreig | Ie | Gadael | Ceid | Llaf |
| Datganoli wedi'i wreiddio | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai peidio byth ag ymyrryd | | | | | | | - | | + | | - | |
| Angen reff | - | | | + | | | | | | | | |
| Cymrodeddu 4 rhan* | + | | | - | | | | | + | - | - | |
| Diwygio Tŷ'r Arglwyddi | | | | + | | | | | | | - | |
| Cyfansoddiad ysgrifenedig | | + | | | | | - | | | | - | |
| | | | | | | | | | | | | |
| Ffederaliaeth | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai diwygio llywodraethu Lloegr | | - | | | + | + | - | | | | | |
| Cadw Lloegr yn gyfan* | | | | | | | | | - | | | |
| A rennir | + | - | | | | | - | | + | - | - | + |
| Cydweithio* | | + | | | - | | + | | - | | + | |
| | | | | | | | | | | | | |
| Annibyniaeth | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai annibyniaeth | | | | | | + | - | | + | - | | |
| Unoliaetholdeb amhendant* | | | | | | | | | | | | + |

| | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | | |
| Heriau | | | | | | | | | | | | |
| Eraill mwy | | + | | | | | | | | | | |
| Mynegai undeb gyhyrol | | | | | | | + | | | + | + | |
| Un genedl Brydeinig* | | + | | | | | | - | - | + | + | |
| Eithrio pleidlais datganoli | | | | | | | | | + | + | | - |
| Eithrio llyw datganoli | | + | | - | | | | | | + | | |

Mae'r arwyddion yn dynodi cyfeiriad cyfernodau sydd yn arwyddocaol yn ystadegol ($p<.05$). Mae pob model yn defnyddio atchweliad llinellol ac eithrio’r rhai sydd wedi’u marcio â seren

**Gogledd Iwerddon**

| | Rhywedd | Oedran | Dosbarth | Addysg | Man geni | | Hunaniaeth genedlaethol | | | Brexit | Pleidlais EthCyffDU 2019 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Menyw | Hŷn | Abc1 | Prif | Gogledd Iwerddon | gDU | Pryd | Gogledd Iwerddon | Gwyddelig | Gadael | DUP | Alliance | Sinn Fein |
| Datganoli wedi'i wreiddio | | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai peidio byth ag ymyrryd | | | | | | | | | + | - | | | |
| Angen reff | - | | | | | | | | | | | | |
| Cymrodeddu 4 rhan* | | | | | | | | + | | - | | | |
| Diwygio Tŷ’r Arglwyddi | | | | | | | | | | | | | |
| Cyfansoddiad ysgrifenedig | | | | - | | | - | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Ffederaliaeth | | | | | | | | | | | | | |
| Mynegai diwygio llywodraethu Lloegr | | | | | | | | | | | | | |
| Cadw Lloegr yn gyfan* | | | | | | | | | | + | | - | - |
| A rennir | | - | | | - | | - | | + | - | | | |
| Cydweithio* | | | | | + | | | | - | | | | - |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Annibyniaeth | | | | | | | | | | | | | |

| | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Mynegai annibyniaeth | | | | | | | - | | + | - | - | + | + |
| Unoliaetholdeb amhendant* | | | | | | | | + | | | | + | |
| | | | | | | | | | | | | | |
| Heriau | | | | | | | | | | | | | |
| Eraill mwy | - | | | | | | | | | + | | | + |
| Mynegai undeb gyhyrol | | | | | | | + | | - | + | + | - | - |
| Un genedl Brydeinig* | | + | | | | | | - | - | + | + | - | |
| Eithrio pleidlais datganoli | | | | | | | | + | + | | | | |
| Eithrio llyw datganoli | | | | - | | | | | + | | - | - | |

Mae'r arwyddion yn dynodi cyfeiriad cyfernodau sydd yn arwyddocaol yn ystadegol (p<.05). Mae pob model yn defnyddio atchweliad llinellol ac eithrio’r rhai sydd wedi’u marcio â seren

Mae'r symbolau ym mhob cell yn dangos cyfeiriad y cyfernod sy'n arwyddocaol yn ystadegol. Ar gyfer penawdau colofnau deuaidd (mae'r nodwedd naill ai'n bresennol neu'n absennol) mae'n golygu bod cael y nodwedd yn arwain at effaith bositif neu negatif ar y newidyn yn y rhes berthnasol. Felly, yn Lloegr, roedd pleidleiswyr Ceidwadol yn 2019 yn llai tebygol o ddweud na ddylai llywodraeth y DU fyth ymyrryd ar wariant, deddfwriaeth na rhwystro pethau (hy perthynas negyddol). Ar gyfer newidynnau eraill, fel oedran, mae'n dangos effaith mynd o'r categori isaf (yr ieuengaf yn yr achos hwn) i'r categori uchaf (yr hynaf yn yr achos hwn). Yng Nghymru, er enghraifft, mae ymatebwyr hŷn yn fwy o blaid cyfansoddiad ysgrifenedig.

Os edrychwn ar draws y pedwar tabl hyn sy'n crynhoi canlyniadau'r model, mae tri pheth yn werth eu nodi. Yn gyntaf, nid yw'r **newidynnau demograffig ac economaidd-gymdeithasol** yn tueddu i fod yn bwysig. Fel arfer, nid yw oedran, rhywedd, dosbarth nac addysg yn rhagfynegyddion perthnasol o agweddau cyfansoddiadol, gan gyfrif mewn llond llaw o achosion.  Wedi dweud hynny, mae rhai patrymau diddorol yn dod i'r amlwg. Roedd ymatebwyr hŷn yn benodol yn fwy tebygol o ddweud bod un genedl Brydeinig ac roedd hyn yn wir ar draws Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Ym mhob un gwlad ond Gogledd Iwerddon roedd ymatebwyr hŷn hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod rhannau eraill o'r DU yn cael mwy na'u cyfran deg o adnoddau ac y dylid eithrio ASau datganoledig rhag eistedd mewn llywodraeth. Ym mhob gwlad ond yr Alban, roeddent yn fwy o blaid sofraniaeth seneddol (yn hytrach na sofraniaeth a rennir).  O edrych ar y themâu, felly, roedd ymatebwyr hŷn yn fwy tebygol o sgorio'n uchel ar agweddau a allai gael eu hystyried yn heriol i ddiwygio cyfansoddiadol.  O ran iaith, roedd siaradwyr Cymraeg yn fwy cefnogol i rai agweddau ar ddatganoli wedi'i wreiddio, gan gynnwys peidio ag ymyrryd a mecanwaith cymrodeddu sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o bedair rhan y DU. Maent hefyd yn fwy cefnogol i sofraniaeth a rennir.

Fodd bynnag, yn gyffredinol **mae hunaniaethau neu ymddygiadau eraill yn bwysicach i ddewisiadau cyfansoddiadol** a dyma ein hail bwynt. Mae hyn yn wir o ran dewis pleidlais. Mae pleidleiswyr Ceidwadol ym Mhrydain yn llai cefnogol i'r rhan fwyaf o fesurau datganoli wedi'i wreiddio, ffederaliaeth ac annibyniaeth. Mae pleidleiswyr Gadael ym mhob un o bedair rhan y DU yn sgorio'n uwch ar y mesurau 'her' ond maent hefyd yn llai tebygol o ddewis sofraniaeth a rennir dros sofraniaeth seneddol (sy'n gwneud synnwyr greddfol o ystyried rhesymeg Brexit).

Yn drydydd, **mae gwahaniaethau diddorol ar draws y pedair tiriogaeth** (neu dair pan fyddwn yn edrych ar bleidleisio ledled Prydain). Mae Ceidwadwyr yr Alban yn fwy o blaid mecanwaith cymrodeddu pedair tiriogaeth. Mae Ceidwadwyr Cymru yn fwy cefnogol i gydweithio ac mae Ceidwadwyr yn Lloegr yn fwy cefnogol o gadw Lloegr yn gyfan mewn unrhyw drefniadau llywodraethu yn y dyfodol. Mae Ceidwadwyr Cymru a'r Alban yn fwy cefnogol i unoliaetholdeb gyhyrog, ond nid oes patrwm o'r fath i Geidwadwyr Lloegr. Er bod hyn yn cadarnhau ein dadansoddiad cynharach, mae'n ddefnyddiol nodi bod y berthynas hon yn dal i fodoli pan fyddwn yn rheoli newidynnau

eraill (hy yr holl benawdau colofnau eraill). Mae pleidleiswyr Gadael yng Nghymru a'r Alban bron i gyd yn dychwelyd ymatebion ystadegol uchel i'r mesurau her, ond nid yw hyn yn wir yn Lloegr. O ran pleidleiswyr Llafur, yng Nghymru maent yn fwy tebygol o fod yn unoliaethwyr amhendant, ac yn Lloegr maent yn fwy tebygol o sgorio'n uchel ar y mynegai annibyniaeth.

Er bod hunaniaeth genedlaethol yn bwysig, o dan reolaeth, dim ond mewn achosion prin y gwelwn berthnasoedd ystadegol arwyddocaol i gyfeiriadau croes i'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig a'r rheini sy'n arddel hunaniaeth is-wladwriaethol. Yr eithriad i hyn yw'r mynegai unoliaetholdeb gyhyrog, lle mae'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yn yr Alban a Gogledd Iwerddon yn fwy cefnogol, ond nid yw'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Albanaidd na Gwyddelig yn fwy cefnogol. Mae hunaniaeth is-wladwriaethol yn gweithio mewn gwahanol ffyrdd mewn gwahanol rannau o'r wladwriaeth. Fel arfer mae'r rheini sy'n arddel hunaniaeth Albanaidd yn fwy cefnogol o fesurau datganoli wedi'i wreiddio, ond mae'r gwrthwyneb yn wir am y rheini sy'n arddel hunaniaeth Seisnig. Yng Nghymru, mae hunaniaeth genedlaethol yn tueddu i fod yn llai pwysig ond ein hasesiad yw ei bod yn ymddangos bod y newidyn Cymraeg yn codi'r un perthnasoedd hyn ac yn ymddwyn yn yr un modd â newidyn hunaniaeth genedlaethol yr Alban.

Nid yw'n syndod ym mhedair rhan y DU bod y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig yn dangos sgoriau is ar y mynegai annibyniaeth, sy'n cynnwys cefnogaeth gyfunol ar gyfer annibyniaeth neu ailuno ar draws pedair rhan y DU. Ond mae'n wir hefyd bod y rheini sy'n arddel hunaniaeth Brydeinig y tu allan i Loegr yn tueddu i fod yn llai o blaid rhai mesurau datganoli wedi'i wreiddio. Yng Nghymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon, mae hyn yn cynnwys gwrthwynebiad i gyfansoddiad ysgrifenedig.

I grynhoi, felly, mae agweddau at undeb Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon yn amlwg yn gymhleth – sy'n golygu nad oes modd rhoi crynodeb hawdd – ond, yn gysylltiedig, maent yn amrywio'n sylweddol ar draws y wladwriaeth. Un cam cyntaf angenrheidiol i bawb sy'n meddwl o ddifrif am ei ddyfodol posibl yw deall a hyd yn oed cofleidio'r cymhlethdod a'r amrywiaeth hwn, rhywbeth sy'n haws o lawer pan fyddwn yn ymdrechu i gasglu, i ddadansoddi ac i gymharu tystiolaeth o bob rhan o'r pedair gwlad.

# Atodiad 2: Methodoleg

Mae data ar gyfer Arolwg Dyfodol Lloegr/Arolwg Cyflwr yr Undeb wedi cael ei gasglu gan wahanol ddarparwyr arolwg. Rhwng 2011 a 2019, cynhaliodd YouGov waith maes yn Lloegr. Roedd yr un peth yn wir yng Nghymru a'r Alban yn 2014 ac eto yn 2018 a 2019. Panelbase oedd yn gyfrifol am y gwaith maes yn y tair tiriogaeth rhwng 2020 a 2021. Ym mhob achos, cafodd yr arolygon eu gweinyddu ar-lein i'w paneli Prydeinig. Cynhaliwyd y gwaith maes yng Ngogledd Iwerddon gan YouGov (2019) neu Panelbase (2020), gyda mynediad at ymatebwyr Lucid Talk. Yn 2021, roedd Panelbase yn dibynnu ar ei banel ei hun ar gyfer sampl Gogledd Iwerddon. Yn 2023, roedd YouGov yn gyfrifol am gasglu data yn y pedair tiriogaeth gyda gwaith maes yn cael ei gynnal rhwng 28 Gorffennaf a 8 Awst.

Ym mhob achos, lluniwyd samplau ar wahân ar gyfer pedair rhan y DU (yn hytrach nag ar gyfer Prydain/DU gyfan). Yna, cafodd yr ymatebwyr eu hailbwysoli i gywiro unrhyw orgynrychiolaeth neu dangynrychiolaeth yn y data. Dangosir maint y samplau yn Nhabl A1.

Tabl A1: Maint samplau ar gyfer Arolwg Dyfodol Lloegr/Arolygon Cyflwr yr Undeb

| | 2011 | 2012 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2023 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Lloegr | 2,836 | 3,600 | 3,705 | 3,451 | 5,103 | 3,168 | 2,741 | 1,594 | 1,507 | 1,603 | 1,621 |
| Yr Alban | -- | -- | 1,104 | -- | -- | -- | 1,502 | 1,006 | 1,515 | 1,610 | 1,650 |
| Cymru | -- | -- | 1,027 | -- | -- | -- | 2,016 | 1,503 | 1,512 | 1,610 | 1,605 |
| Gogledd Iwerddon | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | -- | 1,029 | 818 | 1,067 |

DS: Ni chynhaliwyd unrhyw arolygon yn 2013 na 2022.

Mae'r cyllid ar gyfer gwaith maes yr arolygon hyn wedi cael ei ddarparu gan nifer o sefydliadau/cyrff cyllido gwahanol ac rydym yn cydnabod eu cefnogaeth yn ddiolchgar. Yn 2011 a 2012, roeddent yn cynnwys Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Caeredin a Chymrodoriaeth Ryngwladol Marie Curie. Roedd estyniad i grant y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Dyfodol y DU a'r Alban a gynhaliwyd gan Michael Keating yn darparu cyllid ar gyfer arolygon 2014 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Rhwng 2015 a 2020, cafodd y gwaith maes ei ariannu'n bennaf gan Brifysgol Caerdydd. Yn 2021, roedd Cymdeithas Frenhinol Caeredin wedi ariannu gwaith maes yn yr Alban a Lloegr, ac roedd Llywodraeth Cymru wedi ariannu gwaith maes yng Nghymru a Gogledd Iwerddon. Cafodd gwaith maes arolwg 2023 ei gefnogi gan y Comisiwn Annibynnol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru.